2022-23

# Llyfryn ISCI



## Gwybodaeth i


**Cyfeiriadau Ebost Cyswllt**

Tîm Gweinyddu Asesiadau Israddedigion UGMedicAssessmentStudentQueries@caerdydd.ac.uk

Cyfarwyddwr Blwyddyn 4 Dr Rachel Brooks BrooksRM1@caerdydd.ac.uk

Cyfarwyddwr C21 Yr Athro Rhian Goodfellow Goodfellow@caerdydd.ac.uk

Arweinydd Rhaglen C21 Gogledd Cymru Dr Ffion Williams Ffion.williams@bangor.ac.uk

Cyfarwyddwr Blwyddyn 4 C21N Dr Hemant Marai

# Cynnwys


**COVID-19 and clinical assessments** .......... 4

**ISCE (Integrated Structured Clinical Examination)** .......... 4

*ISCE format* .......... 5

**Preparing for ISCEs** .......... 5

*Reasonable Adjustments* .......... 6

**Virtual ISCE** .......... 7

**Formative mini ISCE** .......... 8

*Giving feedback to your peers:* .......... 9

**Summative ISCE** .......... 9

*Timings* .......... 9

*When and Where* .......... 10

*Attendance, extenuating circumstances & incidents* .......... 10

*Late arrivals at ISCEs* .......... 11

**Patients** .......... 12

*Real patients* .......... 12

*Simulated (actor) patients* .......... 12

**Examiners** .......... 13

**Student conduct** .......... 14

*Corralling/ Quarantining students* .......... 15

**Domains of competence** .......... 16

*Clinical examination/ clinical communication- process and content* .......... 16

*Technical performance- of clinical procedure: the following may be included:* .......... 18

*Diagnostics and clinical reasoning* .......... 19

*Clinical care and patient safety* .......... 19

*Professionalism* .......... 19

**Standard setting** .......... 20

**Feedback** .......... 21

*Example formative ISCE peer marksheets* .......... 21

**Remediation and Resit** .......... 23

**Safety alerts** .......... 23

**Example Year 4** .......... 24

**Communication station** .......... 25

**Interprofessional communication skills** .......... 27

**Clinical pharmacology, therapeutics & communication** ..... **29**

**Case Based Discussion** ..... **31**

**Acute assessment stations** ..... **34**

**Clinical examination stations** ..... **37**

**e-learning resources and Self-Directed Learning** ..... **39**

*Self-Directed learning area: Cardiff* ..... *39*

*Self-Directed learning area: Bangor* ..... *39*

**Further sources of information regarding clinical assessments** ..... **39**

# COVID-19 ac asesiadau clinigol

Fel y gwyddoch, mae asesiadau clinigol 'safonol' yn dibynnu ar ein gallu i ddod â niferoedd sylweddol o gleifion, myfyrwyr, arholwyr a staff y Gwasanaethau Proffesiynol ynghyd er mwyn cynnal y digwyddiadau asesu cymhleth hyn. Rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa glinigol a dilyn canllawiau iechyd cyhoeddus.

# ISCE (Arholiad Clinigol Strwythuredig Integredig)

Arholiad yw'r ISCE sy'n asesu eich cymhwysedd clinigol a'ch proffesiynoldeb - profi eich sgiliau cyfathrebu, eich sgiliau archwilio clinigol a'ch sgiliau ymarferol clinigol mewn modd integredig. Mae'r arholiad wedi'i alinio â deilliannau dysgu hyd at a chan gynnwys cyfnod 2 ac mae'n seiliedig ar y systemau clinigol cyffredin. Yn ogystal â bod yn gyson â'r canlyniadau dysgu, mae'r ISCE Blwyddyn 4 wedi'i ddylunio i gael ei fapio i fap cynnwys Asesiad Trwyddedu Meddygol y Cyngor Meddygol Cyffredinol (https://www.gmc-uk.org/-/media/documents/mla-content-map-_pdf-85707770.pdf) ac Outcomes for Graduates 2018 (Cyngor Meddygol Cyffredinol: https://www.gmc-uk.org/-/media/documents/dc11326-outcomes-for-graduates-2018_pdf-75040796.pdf).

Cwblheir yr ISCE crynodol Blwyddyn 4 i sicrhau eich bod wedi magu'r sgiliau clinigol angenrheidiol i symud ymlaen at Gyfnod 3 y cwricwlwm C21 israddedig. **Rhaid** llwyddo yn yr arholiad er mwyn symud ymlaen i Gyfnod 3.

Os na fyddwch chi'n gallu bodloni'r safon ofynnol yn ystod eich asesiad crynodol, byddwch yn cael cynnig adfer a'r cyfle i ailsefyll yr arholiad yn ystod y cyfnod arholiadau nesaf. Bydd yr arholiad ailsefyll yn cyfateb o ran fformat ac anhawster i'r arholiad ymarferol gwreiddiol a fethwyd.

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth am ISCE atodol Blwyddyn 4/Blwyddyn 5, gan gynnwys manylion ynghylch y meysydd cymhwysedd y cewch eich asesu yn unol â hwy. Dylid darllen y llyfryn hwn ar y cyd â Chanllaw Asesu a Chynnydd Cyfunol 2022/23.

## Fformat ISCE

Bydd myfyrwyr ym Mlwyddyn 4 yn cwblhau:

- un ISCE ffurfiannol Chwefror 2023
- un ISCE crynodol (ME4202) Mai 2023

Bydd gennych gyfle hefyd i gwblhau'r 'ISCE rhithwir' ar Dysgu Canolog.

Bydd ISCE crynodol Blwyddyn 4 yn cynnwys **8 gorsaf**.

Y mathau o orsafoedd a ddefnyddir yw

- Sgiliau cyfathrebu
- Sgiliau cyfathrebu rhyngbroffesiynol
- Ffarmacoleg glinigol, therapiwteg a chyfathrebu
- Trafodaeth ar sail achosion:
- Asesiad acíwt x2
- Archwiliad clinigol x2

Mae'r ISCE yn cwmpasu meysydd a chyd-destunau amrywiol ymarfer clinigol (er enghraifft iechyd meddwl a llawdriniaeth) a chyflwyniadau a chyflyrau a allai effeithio ar gleifion. Yn ogystal, bydd yr ISCE yn asesu eich galluoedd clinigol a phroffesiynol - er enghraifft eich gallu i asesu a rheoli risg, diogelu cleifion agored i niwed ac ati, ac yn asesu eich gallu i ymgymryd â sgiliau a gweithdrefnau ymarferol fel y'u hamlinellir yn Outcomes for Graduates 2018 (y Cyngor Meddygol Cyffredinol: https://www.gmc-uk.org/-/media/documents/dc11326-outcomes-for-graduates-2018_pdf-75040796.pdf). Yn olaf, mae'n asesu meysydd amrywiol eich gwybodaeth broffesiynol - er enghraifft gwyddorau biofeddygol, ffarmacoleg glinigol a therapiwteg, moeseg feddygol a'r gyfraith ac iechyd cymdeithasol a'r boblogaeth - er enghraifft trwy ystyried atal afiechydon wrth asesu eich gofal a'ch rheolaeth o gleifion.

Er mwyn llwyddo yn yr ISCE crynodol mae angen i chi basio o leiaf 6 o'r 8 gorsaf yn ogystal â chyflawni ≥ marc wedi'i addasu 50% yn gyffredinol. Os na allwch chi fodloni'r safon ofynnol yn ystod eich asesiad crynodol, byddwch yn cael cynnig adferiad a'r cyfle i ailsefyll yr arholiad yn ystod y cyfnod arholiadau nesaf. Bydd yr arholiad ailsefyll yn cyfateb o ran fformat ac anhawster i'r arholiad ymarferol gwreiddiol a fethwyd.

# Paratoi ar gyfer ISCE

Mae'r ISCE bach ffurfiannol ym Mlwyddyn 4 wedi'i ddylunio i roi syniad i chi am y mathau o orsaf, amseriadau, ac ati. Mae cleifion efelychol yn brofiadol ac maent wedi'u hyfforddi yn benodol i roi adborth priodol, a dangoswyd bod y model hwn yn fuddiol iawn mewn blynyddoedd blaenorol. Dyma un cyfle yn unig i gael adborth ffurfiannol ar eich sgiliau clinigol a dylech fachu ar bob cyfle yn ystod y lleoliad clinigol i gael adborth gan ymgynghorwyr a chlinigwyr eraill, y mae llawer ohonynt yn arholwyr, a chan y cleifion y byddwch yn cwrdd â nhw.

Mae digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth (SLEs) yn ystod Cyfnodau 2 a 3 yn brofiad dysgu ffurfiannol gwych hefyd, ac yn gyfle da i chi ddysgu rhagor am yr hyn a ddisgwylir gennych yn yr

asesiadau clinigol, er mwyn gweld beth yw lefel eich gwybodaeth a rhoi ffocws i'ch dysgu yn y dyfodol i gyflawni eich gwir botensial mewn asesiadau clinigol yn y dyfodol. Mae'r ffurflenni marcio ar gyfer y sesiynau dysgu efelychol wedi cael eu dyfeisio'n benodol gyda hyn mewn golwg am eu bod yn adlewyrchu'r meysydd. Mae'r gyfadran uwch o Gyfnodau 2 a 3 yn pwysleisio'n barhaus y dylai myfyrwyr fod yn gwneud llawer mwy na'r isafswm a nodir yn y llawlyfrau. Y mwyaf o SLEs a wneir gennych, y mwyaf o adborth y byddwch yn ei gael.

Er gwaethaf pandemig COVID-19, mae digon o gyfleoedd ar gael i chi o hyd i ymarfer casglu hanes a chynnal archwiliadau clinigol, gan ddefnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol.

Hefyd efallai y byddwch am gyfeirio at y penodau perthnasol mewn gwerslyfrau safonol fel 'Macleod's Clinical Examination' a gwylio fideos ar-lein fel y rhai ar geekymedics.com.

Ymarfer yw'r hyn sy'n allweddol i ddatblygu cymhwysedd wrth gynnal archwiliadau clinigol. Achubwch ar bob cyfle i ymarfer y sgiliau hyn trwy gynnal archwiliadau clinigol ar eich gilydd. Cofiwch am urddas a cheisiwch osgoi archwiliadau personol. Dylech drin yr ymarferion hyn fel arholiadau ISCE bach, a beirniadu eich cydweithwyr gan ddefnyddio testunau cyfeirio safonol (gwnewch yn siŵr eich bod yn ymarfer y sgiliau hyn yn unol â'r rheoliadau COVID ar yr y pryd, er enghraifft, efallai y gallech ymarfer y sgiliau hyn ar bobl sy'n byw gyda chi gan y bydd hyn yn lleihau unrhyw risg o drosglwyddo COVID). Bydd ymgynefino â normalrwydd corfforol yn eich helpu i adnabod arwyddion clinigol patholegol.

## Addasiadau Rhesymol

Gall myfyrwyr sydd ag amrywiaeth o anableddau, gan gynnwys namau corfforol neu synhwyraidd, anawsterau dysgu penodol, cyflyrau meddygol tymor hir, cyflyrau iechyd meddwl a chyflyrau ar y sbectrwm awtistig, elwa a bod ganddynt yr hawl i addasiadau rhesymol.
Os ydych yn credu eich bod angen rhoi mesurau ychwanegol ar waith neu os nad ydych yn siŵr a ydych yn gymwys, eich cyfrifoldeb chi yw codi hyn ymhell cyn unrhyw asesiad.

Os felly, cysylltwch â'r **Gwasanaeth Anabledd Myfyrwyr** (GAM) er mwyn i'ch anghenion cymorth gael eu diwallu ac i addasiadau rhesymol gael eu rhoi ar waith cyn gynted ag y bo modd.

Mae'n cymryd amser i unrhyw argymhellion gael eu hanfon i asesiadau ac oni bai bod y rhain yn cael eu derbyn 4 wythnos cyn arholiadau, ni fydd yr addasiadau'n cael eu rhoi ar waith. Felly, cysylltwch â'r GAM cyn gynted â phosibl. Peidiwch â'i chymryd yn ganiataol y bydd addasiadau'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer unrhyw arholiadau ymarferol fel ISCE oherwydd bod hynny wedi digwydd mewn arholiadau yn y gorffennol.

Manylion cyswllt
https://intranet.cardiff.ac.uk/cy/students/on-campus/people-and-teams/view/58180-disability-and-dyslexia-service
studentconnect@caerdydd.ac.uk +44 (0)29 2251 8888

# ISCE Rhithwir

Mae'r tîm asesu, ar y cyd â staff yr Adran Dechnoleg Ddysgu, Sgiliau Clingol, y Ganolfan Sgiliau Cyfathrebu a staff academaidd, yn falch o gynnig profiad ISCE rhithwir i chi. Adnodd ar-lein yw hwn a ddatblygwyd i roi cyfle i chi ddysgu mwy am y mathau o dasgau y disgwylir i chi eu gwneud yn ystod yr ISCE crynodol tra byddwch yn dysgu o bell.

Mae 3 chylchdro ar wahân:

- https://bit.ly/virtual-isces-y2
- https://bit.ly/virtual-isces-y4
- **Cynnwys Newydd: https://learningcentral.cf.ac.uk/bbcswebdav/pid-5537476-dt-content-rid-18235575_4/xid-18235575_4**

Mae croeso i chi glicio ar y ddwy ddolen i archwilio'r holl orsafoedd. Mae pob gorsaf wedi'i seilio ar ISCE go iawn ac fe'ch arweinir trwy'r amryw weithgareddau a ddisgwylir yn unol â'r lefel blwyddyn. Mae'r adnodd hwn yn gallu arbed eich ymatebion ar gyfer eich anghenion monitro perfformiad a dysgu eich hun.

Os ydych eisiau profi sut beth yw cymryd rhan mewn cylchdro ISCE llawn, fel sy'n digwydd yn yr arholiad ISCE, rydym yn cynghori'r canlynol:

1. Cliciwch ar y ddolen i gael eich tywys i gylchdro rhithwir sy'n dangos y cynllun gyda'r holl bodiau.

2. Ar yr ochr chwith bydd rhestr o'r gorsafoedd sydd ar gael. Mae gan bob gorsaf 2 olygfa: "Allan" ac "I mewn". "Allan" ac "I mewn". Mae "Allan" yn dangos yr olygfa y tu allan i'r pod ac os cliciwch chi ar yr eicon, fe welwch gyfarwyddiadau'r orsaf. Cofiwch y byddwch yn cael 4 munud yn yr arholiad (ISCE crynodol) i ddarllen y cyfarwyddiadau cyn mynd i'r orsaf, sy'n para 15 munud.

3. Pan fyddwch wedi darllen y cyfarwyddiadau, bydd angen i chi glicio ar fersiwn "I mewn" yr orsaf i ddechrau'r orsaf. Pan fyddwch yn yr orsaf, dilynwch y cyfarwyddiadau a'r gweithgareddau tan i chi gwblhau'r orsaf.

4. Sylwer y gallwch ddefnyddio'r saethau ar waelod pob tudalen i fynd yn ôl ond nid ymlaen.

5. I fynd i'r orsaf nesaf, bydd angen i chi glicio ar y rhestr o orsafoedd yn y golofn ar yr ochr chwith.

Sylwer bod rhai o'r gorsafoedd yn cynnwys fideos lle y bônt ar gael a rhai adnoddau.

**Mae eich adborth a'ch ymholiadau'n bwysig i'r tîm asesu gan ein bod yn gwerthfawrogi'r budd a ddaw yn sgil darparu cyfleoedd a phrofiadau dysgu ystyrlon.**

# ICSE bach ffurfiannol

Er mwyn rhoi cyfle i chi ymarfer amrywiaeth o orsafoedd ISCE yn y cyfnod hyd at eich ISCE Blwyddyn 4 ym mis Mai 2023, byddwch yn cael y cyfle i ymgymryd ag ISCE bach ffurfiannol, a gynhelir yn ystod yr Wythnos Dal i Fyny ym mis Chwefror 2023 fel arfer. Bydd yr ISCE bach ffurfiannol yn rhoi cyfle i chi ddysgu mwy am y broses arholi a sut mae'r maes yn cael ei farcio trwy lenwi taflenni marcio meysydd wedi'u haddasu ar gyfer eich cydfyfyrwyr. Yn anad dim, mae'r ISCE bach ffurfiannol, ac asesiadau clinigol ffurfiannol eraill yr ydych yn ymgymryd â hwy pan fyddwch ar leoliad clinigol, yn brofiad dysgu – cyfle gwych i chi ddysgu rhagor am yr hyn a ddisgwylir gennych yn yr asesiadau clinigol, er mwyn profi eich gwybodaeth gyfredol a ffocysu eich dysgu arfaethedig i gyflawni eich potensial mwyaf mewn asesiadau clinigol yn y dyfodol.

Yn ystod eich ISCE ffurfiannol, dyrennir amser a phartner penodol i chi cyn yr arholiad, a chewch eich hysbysu ymlaen llaw ynghylch pryd a ble i adrodd. Byddwch yn cylchdroi mewn parau tua chwe gorsaf ISCE 15 munud g**yda bwlch o 4-5 munud (gan ddibynnu ar reoliadau Covid ar y pryd) rhwng pob gorsaf**. Bydd pob un ohonoch yn cwblhau 3 gorsaf yn llawn, o dan amodau arholiad, gan weithio'n unigol, a bydd pob un ohonoch yn arsylwi ar eich cydfyfyriwr wrth iddo gwblhau hanner arall y gorsafoedd. Ar ôl cwblhau pob un o'r gorsafoedd, rhoddir adborth i chi'n syth ar lafar gan eich arholwr ac adborth ysgrifenedig trwy MyProgress.

Gan ychwanegu at eich profiadau o farcio cydfyfyrwyr yn ISCEs ffurfiannol blwyddyn 2, rhaid i'r myfyrwyr sy'n arsylwi gwblhau taflen farcio adborth ffurfiannol ar eu cydfyfyrwyr ar MyProgress – bydd hyn yn rhoi dimensiwn arall i'r adborth y byddwch yn ei dderbyn yn yr ISCE ffurfiannol, ac mae ganddo hefyd y fantais ychwanegol o roi braslun o ddisgwyliadau'r arholwyr yn yr ISCE crynodol.

Nid oes 'sgôr gyffredinol' ar daflenni marcio adborth ffurfiannol, na sgôr rifiadol, ac nid yw'r ISCE ffurfiannol wedi'i osod yn ôl safonau - felly ni ddywedir wrthych p'un a ydych wedi 'llwyddo' neu 'fethu'. Yn lle hynny, diben yr adborth a gewch yw ceisio eich helpu i nodi eich cryfderau a'ch gwendidau yn eich techneg glinigol ac archwilio.

Bydd myfyrwyr yn mewngofnodi i'w cyfrif gan ddefnyddio'r ap trwy'r iPads a ddarperir. Yna byddwch yn dewis 'Asesiadau' o'r ddewislen ar yr ochr chwith ac yn agor y daflen farcio trwy glicio ar y blwch 'ymateb nawr'. Pan fyddwch wedi gwneud hyn, byddwch yn rhoi'r iPad i'r arholwr a fydd yn cofnodi rhif yr orsaf. Pan fydd yr arholwr wedi gorffen marcio, bydd yn dewis 'gorffen' ac yn dychwelyd yr iPad i chi. Dylech sicrhau bod y daflen farcio wedi cael ei chyflwyno cyn mynd i mewn i'r orsaf nesaf. Bydd eich taflenni marcio wedi'u cwblhau ar gael i chi ar MyProgress o dan 'asesiadau wedi'u cwblhau' cyn gynted ag y byddwch yn 'cydamseru' eich cyfrif ar ddiwrnod yr ISCE ffurfiannol. **Mae'n bwysig iawn bod myfyrwyr yn ailgydamseru eu iPads ar ddiwedd pob gorsaf i sicrhau bod y taflenni marcio'n cael eu lanlwytho** i'r ffolder 'asesiadau wedi'u cwblhau'. Os nad yw'r iPads yn cael eu cydamseru, bydd y taflenni marcio'n aros ar yr iPad ac ni fyddant ar gael i chi pan fyddwch yn gadael lleoliad yr arholiad.

NI DDYLAI myfyrwyr fynd ag unrhyw waith papur arall o'r sesiynau (senarios, adnoddau clinigol ac ati). Caiff taflenni marcio arholwyr eu cyflwyno drwy MyProgress hefyd, felly byddwch yn cael eich adborth cyn gynted ag y mae'r arholiad yn gorffen.

### Rhoi adborth i'ch cydfyfyrwyr:

**DYLECH**
- Ddweud yr hyn a wnaethant yn dda
- Dweud yr hyn y gellid ei wneud yn well a sut (byddwch yn benodol)
- Dweud SUT mae gwella (e.e. ymarfer â chleifion, labordy sgiliau clinigol, llyfrau, adnoddau e-ddysgu)

**NI DDYLECH**
- Fod mor negyddol nes eu bod yn teimlo na allant wella
- Gor-ddweud ansawdd (neu ddiffyg ansawdd) y perfformiad – dylai'r adborth fod yn onest ac yn agored

## ISCE crynodol

Yn ISCE crynodol blwyddyn 4, mae'n ofynnol i chi ymgymryd ag **wyth gorsaf ISCE 15 munud gyda bwlch o 3-4 munud (gan ddibynnu ar y rheoliadau Covid ar y pryd) rhwng pob gorsaf**. Mae pob gorsaf wedi'i safoni, gan sicrhau arholiad teg lle y bydd pob myfyriwr yn gweld yr un grŵp o achosion a bydd gofyn iddynt berfformio'r un tasgau clinigol gyda'r un set o gwestiynau â'r holl fyfyrwyr eraill sy'n sefyll yr arholiad ar eich diwrnod penodol, fel y bydd profiad arholi pawb yn gyfartal.

Caiff cyfarwyddiadau eu harddangos y tu allan i bob gorsaf ond gallent gael eu hailadrodd/egluro gan yr arholwyr yn ôl yr angen.

Defnyddir gorsafoedd gwahanol ar gyfer pob diwrnod arholi, er mwyn sicrhau tegwch i bawb oherwydd byddwch yn sefyll arholiadau'r gorsafoedd ar ddiwrnodau gwahanol mewn trefn amrywiol.

### Amseru

Bydd larwm yn canu ar:
0 munud
4 munud
7 munud
11 munud
15 munud

Ceir rhagor o fanylion am amseriadau'r gwahanol fathau o orsafoedd yn yr adran **Gorsafoedd ISCE Blwyddyn 4 Enghreifftiol** isod.

Bydd y larymau hyn yn canu ni waeth beth yw fformat yr orsaf rydych yn ymgymryd â hi - bydd eich arholwr yn rhoi arweiniad i chi os bydd yr amseriadau'n amrywio ar gyfer gorsaf benodol. Rhoddir yr is-amseriadau er mwyn eich tywys drwy wahanol elfennau'r orsaf er mwyn sicrhau bod gennych ddigon o amser i ateb cynifer o elfennau'r orsaf â phosibl.

Os byddwch chi'n gorffen yn gynnar, RHAID i chi aros yn yr ystafell tan i larwm diwedd y sesiwn seinio. Caniateir i chi ddarparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw ddehongliad data neu ofal a rheolaeth glinigol, ond ni chaniateir i chi ailadrodd hanes unrhyw glaf, archwiliad neu sgil dechnegol. Os nad ydych wedi gorffen erbyn diwedd yr amser a ganiateir ar gyfer yr orsaf, RHAID i chi symud ymlaen i'r orsaf nesaf er mwyn i chi gael yr amser paratoi priodol ar gyfer yr orsaf nesaf.

Yn ystod 2022/23, byddwn yn cadw llygad barcud ar yr argymhellion diweddaraf ar gyfer defnyddio cyfarpar diogelu personol mewn lleoliad clinigol a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr amser a ddyfernir rhwng gorsafoedd. Byddwch yn cael eich cynghori o hyn cyn yr ISCE a chaiff yr amser hwn ei ddefnyddio i chi symud rhwng gorsafoedd, paratoi yn ôl canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru a darllen briff yr orsaf. Bydd yr arholwyr yn defnyddio'r amser hwn i gwblhau taflenni marcio ac ysgrifennu adborth ffurfiannol sy'n gysylltiedig â'r maes penodol i chi, er mwyn cefnogi eich dysgu pellach.

## Pryd a ble

Bydd ISCE crynodol Blwyddyn 4 yn cael ei gynnal dros ddau ddiwrnod. Bydd y ddau yn cynnwys sawl cylchred gyfatebol gyfochrog er mwyn darparu ar gyfer pawb. Byddwch yn cael eich gwahodd i fynd i un sesiwn ISCE, a fydd naill ai yn y bore neu yn y prynhawn, ac yn cwblhau pob un o'r 8 gorsaf sy'n rhan o'ch ISCE mewn un sesiwn. Byddwch yn cael gwybod oddeutu 2 wythnos cyn wythnos yr ISCE am eich amserlen cylchdroeon, lleoliadau a dyddiadau penodol trwy Dysgu Canolog.

Ewch i'r Calendr Asesu ar Dysgu Canolog am ddyddiadau penodol yr arholiad. Gellir cynnal yr arholiadau ar sawl safle ar yr un pryd. Cewch eich hysbysu o'ch dyraniad i leoliad, dyddiad ac amser penodol oddeutu pythefnos cyn yr arholiad. Ym mhob lleoliad, bydd nifer o gylchredau cyfochrog yn rhedeg mewn trefn er mwyn darparu ar gyfer pawb trwy gydol y cyfnod arholiadau.

## Presenoldeb, amgylchiadau lliniarol a digwyddiadau

**Mae eich presenoldeb yn orfodol. Rhaid i chi ddangos eich cerdyn adnabod prifysgol.**

Os byddwch yn sâl iawn neu'n methu â bod yn bresennol am reswm arall a'ch bod yn dymuno ymgymryd â'r ISCE crynodol ar y cyfle nesaf, rhaid i chi gyflwyno datganiad o amgylchiadau lliniarol dim hwyrach na 24 awr ar ôl amser dechrau'r arholiad. Rhaid i chi hefyd roi gwybod i gydlynydd y Flwyddyn cyn gynted â phosibl (a fydd yn hysbysu Arweinydd y Flwyddyn Academaidd).

Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn ag Amgylchiadau Lliniarol gan gynnwys terfynau amser a dyddiadau cyflwyno, ar Dysgu Canolog a fewnrwyd y myfyrwyr.

Os ydych am gyflwyno ffurflen digwyddiad/pryder/amgylchiadau lliniarol mewn perthynas â digwyddiad ar ddiwrnod yr arholiad, anfonwch ebost at: UGMedicAssessmentStudentQueries@caerdydd.ac.uk

Mae gennych 7 diwrnod calendr o ddyddiad yr arholiad i ebostio. Mae'n bwysig eich bod yn cadw at yr amserlen hon er mwyn i'ch cais gael ei drafod a'i ystyried mewn pryd i unrhyw benderfyniad

bwrdd gael ei wneud.

Ni fydd unrhyw beth a dderbynnir ar ôl 7 diwrnod calendr o ddiwrnod yr eisteddiad yn cael ei ystyried.

## Cyrraedd yn hwyr ar gyfer ISCE

Ar gyfer pob arholiad clinigol, byddwch yn derbyn amser cyrraedd yn ogystal ag amser cychwyn a lleoliad ar gyfer yr arholiad. Mae'n bwysig eich bod yn cyrraedd yn brydlon ar gyfer yr arholiadau hyn. Os byddwch yn cyrraedd ar ôl i'r arholiad ddechrau, ni chaniateir i chi fynd i leoliad yr arholiad. Yna bydd gofyn i chi sefyll yr arholiad ar y cyfle nesaf sydd ar gael, sef y cyfnod ailsefyll fel arfer.

Os ydych chi'n mynd i fod yn hwyr i arholiad, rhaid i chi anfon ebost at UGMedicassessmentstudentqueries@caerdydd.ac.uk a’r Cydlynydd Blwyddyn i roi gwybod i ni.

# Cleifion

## Cleifion go iawn

Defnyddir cleifion go iawn mewn rhai gorsafoedd. Cofiwch y bydd gan nifer o gleifion go iawn arwyddion corfforol y bydd disgwyl i chi eu nodi a'u hadnabod, ac efallai na fydd gan gleifion eraill arwyddion corfforol annormal.

Cofiwch hefyd y gallai cleifion o bob oedran flino'n hawdd neu efallai y bydd angen iddynt fynd i'r toiled ac ati, ac felly dylech fod yn ymwybodol y gallai fod angen estyn yr amser rhwng gorsafoedd neu eich rhoi ar orsaf seibiant yn ystod eich cylched pe bai claf yn anhwylus yn ystod yr arholiad a bod angen rhywun i gymryd ei le.

## Cleifion efelychol (actorion)

Mae actorion yn ein galluogi i asesu cymwyseddau clinigol a fyddai'n anodd eu darparu mewn modd safonedig i chi i gyd gyda chleifion go iawn. Mae pob un ohonynt yn chwaraewyr rôl profiadol, a bydd rhai yn wynebau cyfarwydd o'r gweithdai sgiliau cyfathrebu. Bydd gan yr actorion sgriptiau manwl ar gyfer eu rolau, a byddant yn mynychu sesiynau hyfforddi cyn yr arholiadau er mwyn adolygu'r rolau hyn i sicrhau y gallant eu chwarae'n gyson. Byddant yn dilyn hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynwysoldeb hefyd. Mae mân amrywiadau'n anorfod, a bydd yr arholwyr yn rhoi ystyriaeth i'r rhain wrth farcio.

<u>Nid yw adborth gan gleifion efelychol eu hunain yn cyfrannu at y marc crynodol</u> ar gyfer eich perfformiad mewn sesiynau ISCE, ond mae eu hadborth yn cyfrannu at yr adborth ffurfiannol y byddwch yn ei dderbyn ar ôl yr arholiad ac mae'n rhoi cipolwg defnyddiol ar sut rydych yn cael eich gweld gan gleifion o ran eich rhyngweithio gyda nhw.

## Myfyrwyr sy'n gwirfoddoli

Efallai na fydd modd defnyddio cleifion go iawn, ac os felly efallai y bydd myfyrwyr sy'n gwirfoddoli neu feddygon yn eu blwyddyn sylfaen yn cael eu recriwtio i helpu gyda'r gorsafoedd arholi.

Gofynnir i'r holl fyfyrwyr sy'n gwirfoddoli a myfyrwyr Blwyddyn 4 gwblhau ffurflen datganiad ffrindiau a theulu cyn yr ISCE er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl.

Dywedir wrth y myfyrwyr sy'n gwirfoddoli i ddisgwyl archwiliad corfforol a bod yn barod i gael archwiliad cardiofasgwlaidd, anadlol, fasgwlaidd ymylol, gastroberfeddol, cyhyrysgerbydol neu niwrolegol. Maent yn cael gwybod dim ond 1 awr cyn yr arholiad penodol, ac yn cael eu hatgoffa bod angen cadw at reolau cyfrinachedd llym.

Fel myfyrwyr Blwyddyn 4, mae cyfleoedd i fod yn wirfoddolwr mewn arholiadau ISCE Blwyddyn 2. Os yw hyn yn gyfle y byddai gennych ddiddordeb ynddo, cadwch lygad am ebyst gan y tîm asesu.

# Arholwyr

Mae'r arholwyr yn athrawon profiadol sy'n ymwybodol o'r lefel ddisgwyliedig o ran perfformiad a gwybodaeth y myfyrwyr a asesir. Yn ogystal, rhaid i'r arholwyr gwblhau hyfforddiant arholwyr israddedig Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd yn rheolaidd, sy'n cynnwys hyfforddiant o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynwysoldeb.

Caiff ymddygiad arholwyr ei fonitro gan y brifysgol trwy gyfuniad o adolygiadau gan gydfyfyrwyr, monitro perfformiad seicometrig ac **Arholwyr Allanol**, sy'n bresennol yn ystod asesiadau clinigol. Ceisiwn sicrhau bod y broses yn deg a bod y safon a ddisgwylir gennych yn cyfateb i fyfyrwyr ar yr un lefel mewn ysgolion meddygaeth eraill. Mae'r arholwyr yn cael eu briffio cyn yr asesiad clinigol, ac ar bob diwrnod maent yn mynd i sesiynau briffio ac yn cael trafodaethau paratoi gorsafoedd i sicrhau bod y marcio a phrofiad y myfyrwyr yn gyson.

Bydd pob arholwr yn marcio'n wrthrychol, bydd yn aros o fewn yr orsaf, a bydd yn marcio'r un orsaf trwy gydol y gylched. Efallai y bydd arholwyr allanol yn bresennol yn ystod yr arholiad hefyd, a fydd yn sicrhau proses deg. Yn ogystal, efallai y bydd arholwyr dan hyfforddiant yn bresennol ac yn arsylwi ar y gorsafoedd.

Os oes gennych bryderon am unrhyw agwedd ar ymddygiad o fewn ISCE a allai fod wedi effeithio ar eich perfformiad, fe'ch anogir i'w codi gyda'r Arweinydd Academaidd ar ddiwrnod yr ISCE. Gallai hyn gynnwys canfyddiadau o annhegwch neu duedd, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny.

Gallwch drafod pryderon cyffredinol nad ydynt wedi effeithio ar eich perfformiad gyda Chyfarwyddwyr Blwyddyn neu Ddirprwy Gyfarwyddwyr, aelod o Dîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Ganolfan Addysg Feddygol neu unrhyw aelod arall o staff.

# Ymddygiad myfyrwyr

**Ymddygiad myfyrwyr** – dylech gyfeirio hefyd at Fewnrwyd y Myfyrwyr (Rheoliadau Academaidd).

**Disgwylir i chi ymddwyn mewn modd proffesiynol trwy gydol yr holl arholiadau, boed yn ffurfiannol neu'n grynodol.** Dylech wisgo naill ai sgrybs glân, yn ôl canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Ganolfan Addysg Feddygol, neu ddillad glân, trwsiadus sy'n addas ar gyfer amgylchedd clinigol - gan sicrhau bod eich enw a'ch rhif yn cael eu harddangos yn glir ar gyfer yr arholwr ac nad ydych yn gwisgo unrhyw beth yn is na'r penelin, bod y gwallt wedi'i glymu'n ôl ac ati.

Sicrhewch eich bod chi'n gyfarwydd â Chod Gwisg GIG Cymru Gyfan, ac yn cadw ato- www.llyw.cymru/cod-gwisg-y-gig

Mae'n rhaid i chi gadw at egwyddor 2 yn ogystal â phob egwyddor.

Rhaid i chi ddilyn yr holl gyfarwyddiadau a roddir gan y tîm asesu a'r goruchwylwyr. **Disgwylir i chi ddod â'ch stethosgop ac oriawr (AC EITHRIO oriorau clyfar** e.e., oriorau Apple, Samsung Gear**).** Dylid gosod pob eiddo arall yn y man diogel yn unol â'r cyfarwyddiadau a geir yn lleoliad yr arholiad. Os bydd angen cyfrifianellau ar gyfer unrhyw orsaf, byddant yn cael eu darparu ac felly, ni chaniateir i chi ddod â'ch cyfrifianellau eich hun i'r arholiad.

Ar ôl cyrraedd lleoliad yr arholiad (gan gynnwys yr ystafelloedd briffio a dal a phob ardal aros arall), ni ddylech geisio cyfathrebu â myfyrwyr eraill trwy unrhyw fodd, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol e.e., drwy ffonau symudol neu ddyfeisiau cyfathrebu eraill.

**Yn ôl Rheoliadau'r Brifysgol, gall unrhyw gyfathrebu â myfyrwyr eraill gan gynnwys trwy ffôn clyfar/cyfrifiadur/tabled (ebost, SMS, WhatsApp, Skype ac ati) tra byddwch yn lleoliad yr arholiad, neu'r ystafelloedd briffio/dal ar ôl arholiad) gael ei ddehongli fel twyllo, a bydd yn cael ei drin fel torri diogelwch yr arholiad.** Yn ogystal, ni ddylech gyfathrebu ag unrhyw fyfyriwr arall trwy unrhyw fodd wedi iddo sefyll yr arholiad a thra bo eraill yn aros i sefyll yr arholiad, oherwydd caiff ei drin fel achos o dorri diogelwch yr arholiad.

PEIDIWCH â dod ag eiddo gwerthfawr i mewn i'r arholiad oherwydd na all y brifysgol fod yn atebol am unrhyw golled. Argymhellir gadael ffonau symudol a phob dyfais electronig arall gartref. Fodd bynnag, os ydych chi'n dewis dod â nhw gyda chi, rhaid eu diffodd pan fyddwch chi'n cyrraedd a'u gosod yn ôl cyfarwyddiadau'r goruchwyliwr mewn lle storio diogel nes caniateir i chi adael. Bydd unrhyw ymgais i anfon neu dderbyn gwybodaeth sy'n ymwneud â'r arholiad yn cael ei ystyried fel torri rheoliadau'r brifysgol ac yn cael ei drin yn unol â hynny.

**Polisi Uniondeb Academaidd Prifysgol Caerdydd**
Mae'n bwysig bod yn gyfarwydd â'r polisi hwn gan ei fod yn amlinellu gwerthoedd craidd y mae Prifysgol Caerdydd yn disgwyl i'w myfyrwyr gadw atynt yn eu gwaith academaidd. O fewn y diffiniad o gamymddygiad

academaidd, roedden ni eisiau tynnu eich sylw at gamymddygiad mewn arholiad.

'Camymddygiad mewn arholiad: unrhyw gamau mewn lleoliad arholi sydd yn erbyn rheolau'r arholiad
a/neu a allai arwain at fantais annheg dros fyfyrwyr eraill. Gall hyn gynnwys y canlynol:
dod â deunyddiau neu eitemau heb ganiatâd i mewn i leoliad yr arholiad, copïo ymatebion myfyriwr arall,
cyfathrebu ag unrhyw berson heblaw goruchwyliwr yr arholiad mewn arholiad trwy
siarad, anfon neges destun, defnyddio ffôn, ystumiau neu unrhyw blatfform arall, dynwared myfyriwr arall, neu
ganiatáu i rywun eich dynwared chi eich hun.'

Mae'r deunyddiau anawdurdodedig yn cynnwys unrhyw lyfrau ffydd a chynghorir bod angen i unrhyw geisiadau o'r fath gael eu cyflwyno **i'r Gwasanaeth Anabledd Myfyrwyr o leiaf 4 wythnos cyn unrhyw asesiad.** Yn ei dro,
bydd y gwasanaeth yn hysbysu'r tîm asesu. Os na fydd myfyriwr yn dilyn y broses, bydd hyn yn cael ei ystyried fel achos o arfer annheg.

**Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)**
Gallai gofynion PPE yn ystod yr ISCE gael eu newid yn unol â chyngor a roddir gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar adeg cwblhau'r llyfryn hwn, disgwylir i fyfyrwyr ddilyn y canllawiau canlynol:

1. Gwiriwch eich hun am symptomau sy'n arwydd o COVID-19. Mae'r rhain yn cynnwys tymheredd uwch, peswch newydd a cholli synnwyr arogleuo neu flasu. Os oes gennych y symptomau hyn, dylech hunanynysu a chael prawf.

2. Sicrhewch hylendid dwylo trwy olchi'ch dwylo neu ddefnyddio gel alcohol cyn pob gorsaf ISCE.

3. Gwisgwch gyfarpar diogelu personol priodol (yn unol â'r canllawiau clinigol diweddaraf) cyn cynnal unrhyw archwiliad clinigol.

4. Efallai y bydd gofyn i chi gwblhau holiadur cofrestru ar ddechrau'r ISCE.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi os bydd y cyngor hwn yn newid.

Bydd y cyfarwyddyd i fyfyrwyr ar gyfer pob gorsaf yn cael ei arddangos er mwyn i chi ei ddarllen yn ystod y 4-5 munud
(ISCE ffurfiannol) neu'r 3-4 munud (ISCE crynodol) rhwng pob gorsaf. Bydd hyn yn eich cyfeirio i ba dasg y mae disgwyl i chi ei chwblhau ar ddechrau'r orsaf, er enghraifft casglu
hanes â ffocws neu archwilio system neu ran benodol o'r claf.

Oni bai y ceir cyfarwyddyd penodol yn y sesiwn friffio myfyrwyr sy'n dweud yn wahano cyn i chi gyrraedd yr
orsaf, dylech siarad â'r arholwr wrth i chi fynd i mewn i'r ystafell. Bydd yr arholwr yn gwirio'ch prawf adnabod ac yna rhoi cyfarwyddiadau i chi am weddill yr orsaf. Yn gyffredinol, os yw'r arholwr yn gofyn cwestiynau
i chi, dylech gyfeirio eich ymateb atynt. Os yw'r claf neu'r claf efelychol

yn gofyn cwestiwn i chi, dylech gyfeirio'ch ateb at y claf. Bydd yr arholwr yn eich cyfarwyddo os oes angen.

Byddwch yn cael eich asesu ar eich sgiliau clinigol a chyfathrebu ac efallai bydd cymryd nodiadau yn ystod gorsafoedd yn tynnu oddi ar eich cyfathrebu uniongyrchol â'r claf, felly **ni** chewch ddefnyddio beiros a phapur i gymryd nodiadau yn ystod y gorsafoedd ISCE oni bai fod hyn yn elfen benodol o'r orsaf – er enghraifft, dogfennu canlyniad sgìl gweithdrefnol, gwneud nodiadau mewn gorsaf gyfathrebu ar fformat SBAR rhyngbroffesiynol.

### Cynnull myfyrwyr/rhoi myfyrwyr mewn cwarantin

Efallai y cewch eich cadw yn ôl am ychydig oriau ar ôl gorffen yr arholiad a bydd eraill yn cael eu cadw am gyfnod cyn i'w arholiad ddechrau. Mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau nad yw myfyrwyr ar gylchdroadau/amserau gwahanol ar unrhyw ddiwrnod penodol yn cyfathrebu â'i gilydd, a allai roi mantais annheg i rai myfyrwyr.

Yn ystod y cyfnod hwn, ni chaniateir defnyddio dyfeisiau electronig a bydd angen i chi roi gwybod i'r goruchwylydd os bydd angen i chi fynd i'r tŷ bach. Fodd bynnag, byddwch yn gallu siarad â myfyrwyr eraill yn yr ystafell. Os ydych chi'n cael eich cadw'n ôl ar ôl yr arholiad neu'n cyrraedd yn gynnar ar gyfer sesiynau'r prynhawn, dewch â bwyd a diod gyda chi, ac unrhyw lyfrau/nodiadau arolygu ar bapur yr hoffech eu defnyddio.

## Meysydd cymhwysedd

Caiff sgiliau eu hasesu o fewn pum maes cymhwysedd cyfartal eu pwysau (P1–P5) ar lefel y myfyriwr ar ddiwedd Cyfnod 2 y cwrs. Byddwch yn gyfarwydd â'r fformat asesu hwn o'ch ISCE Blwyddyn 2. Mae pob maes cymhwysedd yn adlewyrchu deilliannau'r Deilliannau i Raddedigion ac mae pob maes yn gysylltiedig â sgìl penodol. Mae marcio seiliedig ar feysydd yn rhoi clod i'r myfyrwyr sy'n dangos cymhwysedd a rhwyddineb cyffredinol. Mae elfennau penodol pob gorsaf a'r meysydd lle byddwch yn cael eich asesu ym mhob gorsaf yn amrywio ychydig gan ddibynnu ar yr orsaf a cheir enghreifftiau yn y llyfryn hwn. Sylwer bod penawdau meysydd penodol yn amrywio rhwng y gorsafoedd arbenigedd amrywiol.

Dyma rai enghreifftiau:

- **P1**: Archwiliad clinigol/cyfathrebu - proses- Sut rydych chi'n ei wneud
- **P2**: Archwiliad clinigol/cyfathrebu - cynnwys - Beth rydych chi'n ei ddarganfod/perfformiad technegol (gorsafoedd acíwt)
- **P3**: Diagnosteg a rhesymu clinigol
- **P4**: Gofal clinigol a diogelwch cleifion
- **P5**: Proffesiynoldeb

### Archwiliad clinigol/cyfathrebu clinigol – proses a chynnwys

Mewn rhai gorsafoedd, bydd disgwyl i chi gofnodi hanes ac archwilio cleifion ag amrywiaeth o broblemau meddygol.

**Cyfathrebu clinigol:** efallai y disgwylir i chi nodi hanes o resymau claf dros geisio cymorth meddygol, naill ai gan glaf neu ei gynrychiolydd, e.e. perthynas, gan gynnwys ei broblemau a'i bryderon penodol ac effaith y broblem iechyd ar ei fywyd. Efallai hefyd y disgwylir i chi rannu gwybodaeth â chlaf, neu ei gynrychiolydd, e.e. perthynas, megis diagnosis a'r sail resymegol dros ei ddiagnosis, canlyniadau, gweithdrefn neu gynllun rheoli ac yn yr amgylchiadau hyn. Mae'n bosibl hefyd y bydd gofyn i chi gasglu gwybodaeth gan gydweithiwr neu rannu gwybodaeth ag ef. Oni chewch eich cyfarwyddo fel arall gan yr arholwr, dylech ddefnyddio'r model Gofyn–Darparu–Gofyn fel y byddwch eisoes wedi dysgu yn ystod eich gweithdai sgiliau cyfathrebu – h.y. cyn darparu gwybodaeth, dylech ddod o hyd i'r hyn y mae'r claf neu'i berthynas yn ei wybod yn barod er mwyn i chi allu teilwra eich esboniad i anghenion y claf. Gweler 'Canllaw Calgary–Caergrawnt: Communication Skills required for a Consultation (Silverman, Kurtz a Draper 2004) Ceir copi o hwn yng ngweithlyfr Sgiliau Cyfathrebu Clinigol Blwyddyn 4 ar Dysgu Canolog.

Mewn rhai gorsafoedd, efallai y cewch hefyd eich asesu ar eich gallu i gyfathrebu mewn sefyllfaoedd mwy heriol, er enghraifft wrth orfod adrodd am newyddion drwg neu reoli claf dig. Gallai'r ymgynghoriadau hyn fod â chleifion gwirioneddol neu gleifion efelychol (actorion) a gall y lleoliad fod mewn gofal sylfaenol neu eilaidd. Nid ydym yn darparu rhestr benodol o gyflwyniadau gan ein bod yn disgwyl i chi fod yn gallu perfformio – ar lefel diwedd Blwyddyn 4 – mewn amrywiaeth eang o amgylchiadau. Disgwylir i chi fod yn ymwybodol o faterion sy'n ymwneud â diogelu a bod gennych ddealltwriaeth o reoli cleifion sy'n agored i niwed yn briodol.

**Archwiliad clinigol**: disgwylir i chi gynnal - a bod yn gymwys wrth gynnal - archwiliadau corfforol llawn o systemau a rhannau cyffredin y corff. Gallai'r rhain gynnwys (ymhlith eraill):

- Y system cardiofasgwlaidd
- Y system anadlol
- Y system gastroberfeddol
- Yr abdomen (ac eithrio archwilio'r organau cenhedlu allanol)
- Y system gymalau a chyhyrysgerbydol - GALS, y pengliniau, y cluniau, y dwylo a'r cefn.
- Y brif system nerfol a'r system nerfol berifferol (gan gynnwys aelodau uchaf ac isaf y corff, archwilio'r llygaid a'r nerfau creuanol, otosgopi ac offthalmosgopi)
- Swyddogaeth wybyddol (er enghraifft gan ddefnyddio'r offeryn Mini-ACE (Mini Addenbrooke's Cognitive Examination - bydd taflen gyfarwyddiadau yn cael ei ddarparu), asesiad Graddfa Glasgow Coma, archwiliad cyflwr meddyliol
- Archwiliadau preifat ar fanicin, gan gynnwys archwiliadau rhefrol a gweiniol
- Systemau eraill, gan gynnwys (ymhlith eraill) y system fasgwlaidd ymylol, y thyroid, y gwddf, y bronnau a'r croen

Rydych chi'n cael ysgrif glinigol fyr i'ch arwain yn y cyfarwyddyd i fyfyrwyr a ddarperir ym mhob gorsaf. Os ydych yn cael cyfarwyddyd i archwilio'r claf, ni fyddai disgwyl i chi ofyn cwestiynau i'r claf fel arfer, heblaw am y rhai sy'n ymwneud yn benodol â'r archwiliad yr ydych yn ei gynnal – er enghraifft, cael caniatâd ar lafar i'w archwilio a gwirio os yw mewn unrhyw boen cyn cyffwrdd â rhannau o'r corff ac ati. Mae disgwyl i chi eich cyflwyno'ch hun i'r claf, esbonio wrth y claf yr hyn rydych yn ei wneud a rhoi cyfarwyddiadau clir a chryno ynghylch yr hyn y mae angen iddo/iddi ei wneud ar eich cyfer – er enghraifft, eu symud i ystum penodol.

Dylech drin y claf a chyfathrebu ag ef/â hi fel y byddech mewn lleoliad clinigol. Bydd yr arholwr yn eich symud ymlaen fel y bo angen yn ôl ei gyfarwyddiadau safonol. Rhaid i chi ddefnyddio gel dwylo a golchi eich dwylo'n briodol cyn ac ar ôl archwilio pob claf.

Dylid archwilio cleifion yn yr ISCE yn yr un modd ag y dysgwyd i chi a'ch bod wedi'i ymarfer yn ystod eich lleoliadau clinigol. Disgwylir i chi ddinoethi'r claf ar gyfer yr archwiliad clinigol perthnasol, ar ôl cael caniatâd ar lafar oddi wrtho. Mae'n arfer da i gynnig hebryngwr. Ceir rhagor o ganllawiau ar wefan y Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Wrth archwilio'r claf, nid oes rhaid i chi esbonio pob cam o'ch archwiliad; ond efallai y bydd arholwyr yn gofyn am eglurhad ynghylch yr hyn rydych yn chwilio amdano er mwyn dyfarnu marciau yn briodol, e.e. colli cyhyrau neu ffasgelliadau. Dylech weithredu ac archwilio cleifion yn yr un modd yr ydych wedi bod yn ei ymarfer am y pedair blynedd diwethaf. Bydd yr arholwr yn rhoi cyfarwyddiadau penodol i chi, gan ddibynnu ar yr orsaf, ynglŷn â pha wybodaeth y mae'n ofynnol i chi ei rhannu a bydd yn gofyn cwestiynau yn uniongyrchol i chi y dylech eu hateb. Dyfernir marciau'n briodol am y sgiliau a ddangosir, ni waeth p'un a ydych yn dewis esbonio sut rydych yn gwneud yr archwiliad wrth yr arholwr ai peidio.

Cofiwch y bydd gan nifer o gleifion go iawn arwyddion corfforol y bydd disgwyl i chi eu nodi a'u hadnabod; fodd bynnag, efallai na fydd gan gleifion eraill arwyddion corfforol annormal. Disgwylir i chi adnabod 'normalrwydd' yn ogystal â phatholeg. Dylech ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir i chi gan yr arholwr. Er enghraifft, lle mae cwestiynau am resymu diagnostig a chlinigol a gofal clinigol yn ymwneud â chyfarfod clinigol dilynol ar gyfer y claf rydych wedi'i archwilio, byddai'n cynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol ychwanegol bryd hynny, e.e. manylion clinigol, i'ch galluogi i ateb cwestiynau yn briodol.

Dylech fod yn bachu ar bob cyfle yn ystod lleoliadau clinigol i ymarfer cyflwyno eich canfyddiadau yn rhwydd, ar ôl siarad â chleifion a'u hasesu. Diben y cyflwyniad yw sicrhau y gallwch nodi elfennau cadarnhaol a negyddol perthnasol yr hanes a'r archwiliad a oedd yn eich helpu chi i wneud diagnosis.

## Perfformiad technegol – o weithdrefn glinigol: gellir cynnwys y canlynol:

- Darparu cymorth bywyd sylfaenol a'r defnydd o ddyfeisiau AED (diffibrilwyr allanol awtomataidd)
- Hylendid dwylo ac Offer Amddiffynnol Personol
- Rheoli heintiau a rheoli gwastraff clinigol
- Arwyddion hanfodol, monitro glwcos yn y gwaed a defnyddio siartiau NEWS (Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol)
- BMI, taldra a phwysau
- Mesur plentyn a phlotio siart twf
- Asesu clwyfau, techneg aseptig a gwisgo clwyfau arferol
- Dadansoddi wrin, sampl canol llif o wrin a phrawf beichiogrwydd
- Swabiau trwyn (gwirio am MRSA)
- Swabiau clwyfau
- Pigiadau yn y cyhyrau a phigiadau dan y croen
- Monitro/cofnodi electrocardiograffau
- Gweithrediad anadlol, anadlyddion, briglif, dyfeisiau rhoi ocsigen

- Tynnu gwaed a meithriniadau gwaed
- Cyfrifo dos cyffur ac ysgrifennu presgripsiwn ar gyfer meddyginiaeth neu hylifau
- Hylifau mewnwythiennol a gosod diferwr hylifau mewnwythiennol â llaw
- Defnyddio caniwlâu a rhoi cyffuriau mewnwythiennol
- Cathetreiddio dynion a merched
- Pwytho ac anesthetig lleol
- Twll mewn rhydweli
- Cymorth cyntaf sylfaenol

Dylech ddilyn y cyfarwyddiadau manwl a gewch gan yr arholwr. Yn gyffredinol, oni chyfarwyddir yn wahanol, bydd disgwyl i chi ryngweithio â'r claf efelychol/claf go iawn trwy gydol elfennau sgiliau gweithdrefnol y gorsafoedd. Dylai hyn gynnwys, oni chyfarwyddir yn wahanol, roi esboniad strwythuredig bras o'r weithdrefn, ceisio cydsyniad ar lafar a siarad â'r claf trwy gydol y sesiwn, fel y byddai disgwyl i chi ei wneud wrth berfformio sgìl gweithdrefnol ar glaf go iawn.

Fe'ch cynghorir i beidio â symud y modelau ac ati ond, yn hytrach, eu gadael lle y maent ac fel y maent wedi'u gosod yn y man cywir ar gyfer yr orsaf. Mae hefyd yn bwysig eich bod yn trin unrhyw fodelau gyda pharch ac yn sicrhau eich bod yn eu trin fel y byddech chi gyda chlaf go iawn. Gellir symud eitemau llai/tafladwy, fel padell ANTT, fel sy'n addas i chi, a bydd y rhain yn cael eu hail-leoli i fan arferol mewn pryd i'r myfyriwr nesaf er mwyn sicrhau profiad cyson i bob myfyriwr.

Ar Dysgu Canolog ceir y Modiwl Sgiliau Clinigol – Adnoddau Dysgu, lle gallwch ddewis y sgìl gweithdrefnol unigol yn y gwymplen. Mae amrywiaeth o adnoddau ym mhob ffolder, ond gellir dilyn e-diwtorialau Prifysgol Caerdydd er mwyn adolygu'r sgiliau gweithdrefnol. Ceir 'rhestrau gwirio' ar ddiwedd y mwyafrif o'r e-diwtorialau ond byddem yn eich annog i adolygu'r holl diwtorial A HEFYD gwblhau digon o waith dysgu hunangyfeiriedig, yn hytrach na chanolbwyntio ar restr wirio yn unig.

## Diagnosteg a rhesymu clinigol

Byddwch yn cael eich asesu ar eich gallu rhesymu clinigol. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o'ch crynodeb clinigol o'ch canfyddiadau (ar ôl archwilio a siarad â'r claf fel sy'n ofynnol gan y gorsafoedd amrywiol), cywirdeb ac ehangder eich diagnosis gwahaniaethol, a dangos dehongliad rhesymegol o ganfyddiadau a chanlyniadau clinigol.

Yn ogystal â llunio diagnosis gwahaniaethol ac ateb cwestiynau i ddangos eich rhesymeg, efallai y bydd disgwyl i chi dehongli data clinigol sy'n gysylltiedig â'r achos – er enghraifft (ond nid yn gyfyngedig i'r rhain), pelydrau-X, delweddau MRI neu CT a ffotograffau a delweddau clinigol, siartiau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS), siartiau canradd pwysau gwaed pediatrig, siartiau twf, electrocardiograffau, gwaed (darperir ystodau arferol) a chanlyniadau microbioleg, a phrofion gweithrediad yr ysgyfaint (siartiau sbirometreg a llif anadl).

Wrth ddehongli canlyniadau, dylech ddefnyddio dull trefnus; er enghraifft, dechreuwch trwy gadarnhau bod gennych fanylion cywir y claf, y math o ganlyniad a dyddiad y canlyniadau.

## Gofal clinigol a diogelwch cleifion

Gofynnir cwestiynau i chi ynghylch y rheolaeth glinigol o gyflyrau a chyflwyniadau amrywiol sydd wedi cael eu trin hyd at ac yn ystod Cyfnod 2. Disgwylir i chi ddangos eich bod yn gallu rheoli cleifion mewn modd diogel a phriodol, ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer myfyriwr ym Mlwyddyn 4. Bydd disgwyl i chi roi sail resymegol ar gyfer y cynllun a roddwch.

### Proffesiynoldeb

Byddwch hefyd yn cael eich arholi ar eich proffesiynoldeb – eich ffordd gyda'r cleifion a'ch ymddygiad trwy gydol yr arholiad. Bydd angen i chi ddangos parch tuag at y cleifion, cyfathrebu'n glir, ac ystyried diogelwch, cysur ac urddas y cleifion. Bydd angen i chi hefyd ddangos hylendid dwylo diogel (glanhau eich dwylo'n briodol cyn ac ar ôl archwilio pob claf) a chynnal gwedd ac ymddygiad personol priodol ar gyfer amgylchedd clinigol.

## Gosod safonau

Mae safon yr arholiad wedi'i gosod trwy ddefnyddio'r dull atchweliad ffiniol. Er mwyn llwyddo yn yr ISCE Blwyddyn 4, rhaid i chi basio 6 o'r 8 gorsaf ac, YN OGYSTAL, gyflawni marc cyffredinol o ≥50% ar gyfer yr arholiad sydd wedi'i addasu yn unol â'r safon a osodwyd. Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos lefel dderbyniol o berfformiad ar draws amrywiaeth o orsafoedd. Mae hyn yn ddull safonol ar gyfer arholiadau o berfformiad clinigol.

Nid yw Cofrestrfa Prifysgol Caerdydd yn derbyn marc llwyddo sy'n wahanol o arholiad i arholiad ac yn gosod y cyfyngiad y bydd marc o 50 neu uwch yn cael ei ystyried yn llwyddiant, ac mae unrhyw farc sy'n is na 50 yn cael ei ystyried yn fethiant. Mae hyn yn golygu os nad yw'r marc llwyddo safonol a bennwyd ar gyfer arholiad yn hafal i 50, yna rhaid gwneud addasiad i'r marciau a ddyfarnwyd i fyfyrwyr fel bod statws llwyddo/methu myfyrwyr yn cael ei gadw pan fydd y marciau addasedig yn cael eu trosglwyddo i'r Gofrestrfa.

Mae'r mecanwaith addasu yn defnyddio trawsnewidiad llinol syml a thryloyw ar ffurf cymhareb syml sy'n estyn neu'n crebachu marc y myfyrwyr pan fyddwn yn defnyddio'r marc sydd ei angen gan y Gofrestrfa, sef 50%. Felly, ar ôl gweithredu'r marc sydd ei angen gan y Gofrestrfa, sef 50%, a'r marc llwyddo safonol a bennwyd, mae'r pellter mewn sgoriau yn amrywio ar y pen isaf a'r pen uchaf. Mae gan y sgoriau sy'n agosach at y marc llwyddo neu'n is na'r marc llwyddo bellter llai o'r sgôr % grai tra bod gan y sgoriau sydd â lledaeniad uwch i fyny o'r marc pas fwy o addasiad. Mae'r dull trawsnewid hwn yn sicrhau nad yw myfyrwyr dan anfantais ar sail eu sgoriau crai neu sgoriau safonol a bennwyd sydd wedi'u haddasu. Gan fod y sgôr % grai yn wahanol ar gyfer pob gorsaf ac mae gan bob gorsaf farc llwyddo safonol ar wahân, byddai faint o newid yn sgôr wedi'i addasu gan SS yn amrywio yn dibynnu ar sgôr amrwd % myfyriwr ar ôl ystyried y marc llwyddo safonol a bennwyd ar bob gorsaf a'r gofrestrfa sydd ei angen ar y marc. Er enghraifft, lle mae sgoriau % grai'r orsaf yn 90% ond mae gan yr orsaf hefyd farc llwyddo uwch (67%), byddai'r gwahaniaeth yn y sgôr % grai a'r sgôr safonol a bennwyd wedi'i haddasu yn fawr, tua 22%. Rhag ofn i'r myfyriwr y newidiodd ei sgoriau 5%, byddai'r myfyriwr hwn wedi cael sgôr % grai rhywle rhwng 55 a 60%, ond byddai myfyrwyr a gafodd sgoriau % crai rhwng 85 a 90% yn cael tua 8% o newid yn y sgoriau. Mae'r newid hwn yn llawer llai ar y pen isaf. Byddai myfyrwyr a fethodd ac a gafodd sgôr % grai o tua 43-49% yn cael newid sgôr llai o tua 3-4%. Lle mae myfyriwr wedi cael sgoriau crai (65%) mewn gorsaf benodol a chael marc cyffredinol o 3 (llwyddo) ac mae'r marc

llwyddo ar gyfer yr orsaf honno wedi'i gosod ar 64%, byddai'r myfyriwr yn pasio'r orsaf honno gyda thua 51% o sgôr safonol a bennwyd wedi'i haddasu a byddai ychydig yn uwch na pherfformiad ffiniol. Byddai perfformiad ffiniol yn golygu ychydig iawn o gymhwysedd, yng nghyd-destun ISCE; myfyriwr ffiniol yw'r un sy'n cyrraedd y safon o'r trwch blewyn lleiaf posibl, ond caiff hyn ei ystyried yn 'llwyddiant'. Byddai unrhyw un sy'n sgorio islaw'r perfformiad ffiniol yn methu.

Unwaith eto, bydd angen i fyfyrwyr sy'n ailsefyll yr ISCE basio o leiaf 6 o 8 gorsaf a chyflawni ≥50% o’r marc safonol a bennwyd wedi'i addasu i lwyddo. Fodd bynnag, bydd eu marc yn cael ei gapio ar 50% ar gyfer ymgais ailsefyll (ail ymgais) oni bai bod ganddynt amgylchiadau lliniarol sydd wedi'u derbyn.

# Adborth

Gweler y Canllaw Asesu a Chynnydd Cyfunol i gael rhagor o wybodaeth am eich adborth a sut i'w ddefnyddio.

## Enghreifftiau o daflenni wedi'u marcio gan gydfyfyrwyr ar gyfer yr ISCE ffurfiannol

Ceir nifer o enghreifftiau o daflenni marcio wedi'u marcio gan gydfyfyrwyr ynghyd ag enghreifftiau o orsafoedd ymhellach ymlaen yn y llyfryn hwn, yn ogystal ag enghraifft o'r adborth ffurfiannol a geir ar gefn arholiadau ISCE sydd wedi'u marcio ar bapur, a ddangosir ar dudalen nesaf y llyfryn hwn.

Sylwer y bydd adborth o sesiynau ISCE sydd wedi'u marcio'n electronig yn edrych yn wahanol ond bydd y cynnwys yn debyg. Mae'r taflenni marcio enghreifftiol hyn yn gynrychiadol a bydd y taflenni marcio go iawn yn amrywio, gan ddibynnu ar gynnwys yr orsaf ar gyfer pob arholiad penodol.

Bydd taflenni marcio'r arholwr yn debyg o ran fformat, ond byddant hefyd yn cynnwys manylion ynghylch y tasgau disgwyliedig ar gyfer pob maes, er mwyn sicrhau cysondeb o ran marcio. Mae taflenni marcio'r arholwr hefyd yn cynnwys blwch gosod safonau ychwanegol na chaiff ei ddarparu yn ystod yr arholiadau ISCE ffurfiannol.

**Adborth ffurfiannol enghreifftiol**

**Beth cafodd ei wneud yn dda?**

Amlinellwch yr hyn rydych yn teimlo y gallai'r myfyriwr ei wneud i wella ymhellach

**Yr hyn y gellid ei wneud yn well/awgrymiadau i wella**

Amlinellwch yr hyn y mae angen i'r myfyriwr ei wneud i wella cymwyseddau mewn meysydd penodol

**Rhybudd diogelwch ('cerdyn melyn') – disgrifiad manwl o'r weithred neu'r ymddygiad:**

**Gorsafoedd cleifion efelychol yn unig: Adborth ffurfiannol gan y claf efelychol:**

(Sylwer bod yr adborth hwn yn gwbl ffurfiannol ac nad yw'n cyfrannu at eich marc mewn asesiadau crynodol)

(Cleifion efelychol: Llenwch un swigen fesul rhes ar gyfer y disgrifiad mwyaf addas o sut y gwnaeth y myfyriwr gyfathrebu â chi fel claf yn eich barn chi a'r un maes rydych chi'n teimlo y byddant yn elwa fwyaf o ymarfer)

| | Y gwelliannau sydd eu hangen | Hyfedr | Rhagorol | Meysydd allweddol i'w hymarfer: |
|---|---|---|---|---|
| Darparu strwythur: | | | | |
| Perthynas: | | | | |
| Cyfathrebu di-eiriau: | | | | |
| Archwilio safbwynt y claf: | | | | |
| Cyfathrebu ar lafar: | | | | |

| Boddhad cyffredinol o ran y berthynas rhwng y claf a'r meddyg: | | | | |
|---|---|---|---|---|

## Adferiad ac ailsefyll

**Disgwylir i fyfyrwyr sy'n methu â chyrraedd y safon ofynnol yn ystod eu hasesiad crynodol fynd i sesiwn adfer a bydd ganddynt gyfle i ailsefyll yr arholiad yn ystod y cyfnod arholiadau nesaf.** Bydd yr arholiad ailsefyll yn debyg o ran fformat ac anhawster i'r arholiad ymarferol gwreiddiol a fethwyd. Caiff yr adferiad ei gydlynu gan y tîm cwricwlwm, a disgwylir i chi ymgymryd yn llwyr â'r holl ddysgu adferol.

Os byddwch yn methu'r ISCE, mae'n arbennig o ddefnyddiol rhannu a thrafod yr adborth a dderbynnir â'ch Tiwtor Personol/Goruchwylydd Addysgol/Cyfarwyddwr Blwyddyn. Fe'ch anogir i ddod â'ch adborth i unrhyw sesiynau dysgu ychwanegol a gynigir i chi, fel y gall y tiwtor drafod y meysydd penodol y dylid canolbwyntio arnynt wrth gynnig cymorth.

## Rhybuddion diogelwch

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn mynnu bod yr Ysgol Meddygaeth yn asesu gwybodaeth glinigol, sgiliau, agweddau proffesiynol ac ymddygiad. Os bydd myfyriwr yn dangos agwedd ac ymddygiad gwael, neu'n dangos safon sgiliau neu wybodaeth beryglus o isel, gall arholwr gwblhau 'rhybudd diogelwch' i dynnu sylw at y mater fel y gallwch dderbyn adborth ac adferiad wedi'i dargedu os bydd angen. Mae rhybuddion diogelwch yn galluogi arholwyr i dynnu sylw at y ,myfyrwyr hynny nad yw eu sgiliau neu eu hymddygiad wedi cyrraedd y safon ddisgwyliedig eto, ac i roi adborth ffurfiannol hanfodola galluogi'r gwaith o ddarparu cymorth ychwanegol priodol yn ôl yr angen.

Os byddwch yn cael 'Rhybudd Diogelwch' yn ystod ISCE crynodol, rhoddir adborth manwl ac fe'ch anogir i geisio dysgu rhagor i fynd i'r afael ag unrhyw fwlch a nodwyd o ran gwybodaeth, cyfathrebu neu sgiliau. Mae disgwyl i chi drafod rhybuddion diogelwch, yn ogystal â'ch holl adborth o'r ISCE, gyda'ch tiwtoriaid personol a'ch goruchwylwyr addysgol ar leoliad, gan felly sicrhau eich bod yn dysgu o'r asesiad ac yn defnyddio'r adborth fel rhag-borth. Byddem hefyd yn eich annog i drafod rhybuddion diogelwch gyda'ch goruchwylwyr addysgol ar ddechrau blwyddyn 5 i allu cael cymorth/cyfleoedd wedi'u targedu yn ystod y lleoliad gwaith.

Gallai'r rhybuddion diogelwch gynnwys camgymeriadau a allai roi bywydau yn y fantol, lefelau gwybodaeth amhriodol neu beryglus, neu ymddygiad amhriodol gyda chlaf neu glaf efelychol neu'r arholwr. Mae enghreifftiau cyffredin yn cynnwys y canlynol (sylwer nad yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr):

- Anghwrteisi/garwedd neu ddiystyru claf
- Gwisg neu hylendid amhriodol – er enghraifft, methu â golchi dwylo cyn archwilio claf
- Techneg archwilio wan neu beryglus
- Sgiliau cyfathrebu annigonol
- Sgiliau mathemateg sylfaenol gwan – er enghraifft, wrth gyfrifo neu roi dosau cyffuriau

- Peidio ag adnabod alergeddau i gyffuriau – cofiwch ofyn i'r claf, chwilio am gadwyn/breichled rhybudd meddygol ac ati, ac unwaith i'r alergeddau ddod i'r amlwg, cofiwch ystyried yr wybodaeth yng nghyd-destun rhagnodi dewisiadau amgen diogel addas i'ch cleifion
- Sgiliau clinigol gwael - er enghraifft techneg adfywio cardio-pwlmonaidd wael, cael gwared ar offer miniog mewn modd amhriodol neu dechneg aseptig wael
- Methu deall y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'i rhoi ar waith

# Enghraifft Blwyddyn 4

Mae'r adran hon yn dechrau ar y dudalen nesaf.

# Gorsaf gyfathrebu

Mae casglu gwybodaeth gan gleifion a'u teuluoedd a'u gofalwyr, a rhannu gwybodaeth â nhw, yn sgiliau craidd i bob meddyg. Yn ogystal, mae'n ofynnol i feddygon reoli ansicrwydd a darparu gofal diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Ar adegau, bydd angen i chi gyfathrebu'n effeithiol mewn amgylchiadau mwy heriol - er enghraifft rhoi newyddion drwg, a chynorthwyo cleifion a allai fod yn ofidus neu'n gynhyrfus.

Yn y gorsafoedd hyn, byddwch yn cael **saith** munud pan fydd disgwyl i chi gyfathrebu â chlaf neu ei berthynas/ofalwr. Gallai hyn hefyd olygu casglu hanes y claf, cael hanes cyfochrog gan berthynas neu rannu gwybodaeth â'r claf neu ei berthynas/ofalwr. Efallai hefyd y bydd angen i chi ddehongli adnoddau clinigol cysylltiedig a thrafod y rhain â'r claf/perthynas/gofalwr.

Mewn achosion eraill, gellid gofyn i chi resymoli ac esbonio gweithdrefn diagnosis a/neu gynllun rheoli i glaf, ei berthynas neu gynrychiolydd. Gallai hyn hefyd gynnwys dehongli ac esbonio/trafod adnoddau clinigol cysylltiedig.

Byddwch yn cael eich asesu o ran eich sgiliau cyfathrebu clinigol (proses a chynnwys), yn ogystal â'ch rhesymu clinigol a gofal clinigol wrth siarad â'r claf, trwy ateb cwestiynau gan y claf efelychol. Bydd y prif reswm pam mae'r claf yn ceisio sylw meddygol yn cael ei ddisgrifio ar ddrws yr ystafell er mwyn i chi ei ddarllen cyn i chi fynd i mewn i'r ystafell.

Ar ôl saith munud, bydd yr arholwr yn eich atal ac yn gofyn i chi wneud y canlynol:

- Crynhoi a chyflwyno achos y claf
- Efallai y gofynnir i chi rannu diagnosis gwahaniaethol priodol a nodi a chyfiawnhau'r sail resymegol i'ch diagnosis mwyaf tebygol
- Ateb cwestiynau sy'n ymwneud ag adnoddau clinigol safonol
- Ateb cwestiynau safonol sy'n ymwneud â gofal clinigol a rheoli'r claf

## GORSAF ENGHREIFFTIOL: SGILIAU CYFATHREBU

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth i Fyfyrwyr** | Rydych yn fyfyriwr meddygol yn eich pedwaredd flwyddyn ar leoliad clinigol mewn Ysbyty Cyffredinol Dosbarth. |
| Lleoliad: | Uned asesu gynaecoleg |
| Manylion y claf: | Atgyfeiriwyd Josie Davies gan ei meddyg teulu gan ei bod yn dweud bod y ffetws yn symud llai. Mae hi'n feichiog ers 35 wythnos. |
| Eich tasg: | Gofynnwyd i chi gasglu hanes y claf.<br><br>Ar ôl 7 munud bydd yr arholwr yn gofyn i chi gyflwyno'ch canfyddiadau. Bydd gofyn i chi wedyn ddehongli data clinigol ac ateb cwestiynau am eich rhesymu clinigol a gofal clinigol ar gyfer y claf. |

## ISCE Blwyddyn 4 Prifysgol Caerdydd 2022/23

## Taflen farcio cydfyfyrwyr ffurfiannol enghreifftiol: Sgiliau cyfathrebu

<table>
<tr><td>Enw’r myfyriwr</td><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td>Enw’r asesydd</td><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td></td><td></td><td>Methu</td><td>Ffiniol</td><td>Llwyddo</td><td>Rhagorol</td></tr>
<tr><td>P1</td><td>Sgiliau cyfathrebu – proses<br>A wnaeth y myfyriwr gasglu/rhannu gwybodaeth berthnasol trwy gynnal archwiliad hanes ac archwiliad corfforol/iechyd meddwl priodol, ac asesu a rheoli’r risg?</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>P2</td><td>Sgiliau cyfathrebu – cynnwys<br>A wnaeth y myfyriwr gasglu/darparu gwybodaeth fanwl gywir a chynhwysfawr?</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>P3</td><td>Diagnosteg a rhesymu clinigol<br>A ddangosodd y myfyriwr ddehongliad rhesymegol o ganfyddiadau’r archwiliad clinigol a rhagarweiniol? A wnaeth y myfyriwr lunio rhestr briodol wedi’i blaenoriaethu o broblemau a diagnosis gwahaniaethol, gan ddangos cyfiawnhad rhesymegol/blaenoriaethu a graddio, a gallu i resymu ei ddiagnosis?</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>P4</td><td>Gofal clinigol a diogelwch cleifion<br>A wnaeth y myfyriwr ateb y cwestiynau am ofal clinigol a diogelwch cleifion yn briodol? A wnaeth y myfyriwr ymdrin yn briodol â chymhlethdod ac ansicrwydd, gan gynnwys rheoli cydafiechedd a blaenoriaethu tasgau? A wnaeth y myfyriwr ddangos dealltwriaeth o ymchwiliadau perthnasol a sut gallai’r canlyniadau bennu gofal pellach? A wnaeth y myfyriwr ddehongli’r canlyniadau a sicrhau y gweithredir arnynt yn briodol yng nghyd-destun y sefyllfa glinigol, gan osgoi gorymchwilio?<br>A wnaeth y myfyriwr asesu a chynhyrchu cynlluniau rheoli diogel a phriodol ar gyfer cyflyrau cronig/achosion brys/acíwt, a hybu iechyd ac atal afiechyd fel y bo’n briodol?<br>A wnaeth y myfyriwr ddangos y gallu i ystyried risgiau a manteision dewisiadau rheoli amgen ar yr un pryd â defnyddio canllawiau wedi’u seilio ar dystiolaeth yn briodol a dangos sgiliau ymgynghori a rheoli sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn?</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>P5</td><td>Proffesiynoldeb<br>A wnaeth y myfyriwr ddangos parch tuag at y claf, cyfathrebu’n glir, ac ystyried diogelwch, cysur ac urddas y claf?<br>A wnaeth y myfyriwr ddangos ei fod yn sicrhau hylendid dwylo diogel a’i fod yn briodol o ran ei bryd a’i wedd a’i ymddygiad?<br>A wnaeth y myfyriwr ymddwyn yn unol â chyfrifoldebau cyfreithiol a moesegol (gan gynnwys egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth), gan ddangos dealltwriaeth o alluedd a chydsyniad y claf a chyfrinachedd yn ei gylch wrth ddarparu gofal, a diogelu cleifion agored i niwed, lle y bo’n berthnasol?</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="4">Rhybudd diogelwch (‘cerdyn melyn’)<br>(Os OES, llenwch y blwch ‘rhybudd diogelwch’ ar y cefn)</td><td>Oes</td><td>Nac oes</td></tr>
</table>

# Sgiliau cyfathrebu rhyngbroffesiynol

Mae'n rhaid i feddygon newydd gymhwyso ddysgu a gweithio'n effeithiol o fewn tîm amlbroffesiynol
ac amlddisgyblaethol ac ar draws amryw leoliadau gofal. I gyflawni hyn, mae'n ofynnol i chi ddangos gwaith tîm rhyngddisgyblaethol effeithiol a sgiliau cyfathrebu priodol i sicrhau bod gofal diogel o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu. Bydd hyn yn cynnwys cyfathrebu a gweithio'n effeithiol â chydweithwyr mewn sefyllfaoedd amrywiol, er enghraifft trosglwyddo neu atgyfeirio claf, a phan fydd pethau'n mynd o chwith, er enghraifft pan fydd camgymeriadau'n digwydd. Bydd rhaid i chi ddangos eich bod yn gallu ymateb yn briodol i gais gan gydweithwyr, ar yr un pryd â dangos hyblygrwydd a'r gallu i addasu er mwyn datrys problem a gwneud penderfyniadau a rennir.

Yn y gorsafoedd hyn, rhoddir **4** munud i chi i gasglu hanes byr gan glaf. Yna, bydd yr arholwr yn eich atal ac yn rhannu crynodeb o'i ganfyddiadau clinigol â chi - efallai y gofynnir i chi ddehongli adnoddau clinigol cysylltiedig hefyd.

Ar ôl tua 7 munud, bydd yr arholwr yn gofyn i chi am eich diagnosis gwahaniaethol a'ch sail resymegol. Yna, gofynnir i chi siarad â chydweithiwr clinigol ar y ffôn i atgyfeirio neu drosglwyddo'r claf, er enghraifft gan ddefnyddio SBAR i strwythuro'ch trosglwyddiad. Caniateir i chi wneud nodiadau byr i'ch atgoffa ar daflen a roddir i chi gan yr arholwr.

Ar ôl 11 munud, bydd yr arholwr yn eich atal ac yn gofyn cwestiynau safonol i chi sy'n ymwneud â rhesymu clinigol, gofal clinigol a rheolaeth y claf.

Byddwch yn cael eich asesu o ran eich sgiliau cyfathrebu clinigol (proses a chynnwys), yn ogystal â'ch rhesymu clinigol a gofal clinigol wrth siarad â'r claf a chydweithiwr, a'ch rhesymu clinigol, gofal clinigol a phroffesiynoldeb. Bydd y prif reswm pam mae'r claf yn ceisio sylw meddygol yn cael ei ddisgrifio ar ddrws yr ystafell er mwyn i chi ei ddarllen cyn i chi fynd i mewn i'r ystafell.

## GORSAF ENGHREIFFTIOL: CYFATHREBU RHYNGBROFFESIYNOL

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth i Fyfyrwyr** | Rydych yn fyfyriwr meddygol yn eich pedwaredd flwyddyn ar leoliad clinigol mewn Ysbyty Cyffredinol Dosbarth. |
| Lleoliad: | Uned argyfwng |
| Manylion y claf: | Mae'r claf hwn yn ceisio sylw meddygol ar ôl digwyddiad o hunan-niweidio |
| Eich tasg: | Casglwch hanes byr gan y claf.<br><br>Yna, rhoddir canfyddiadau clinigol y claf i chi a gofynnir i chi drosglwyddo'r claf i gydweithiwr ar y ffôn.<br><br>Ar ôl 11 munud, bydd yr arholwr yn gofyn i chi edrych ar ddata clinigol ac ateb rhai cwestiynau. |

**ISCE atodol Blwyddyn 4/Blwyddyn 5 Prifysgol Caerdydd 2022/23**

**Taflen farcio cydfyfyrwyr ffurfiannol enghreifftiol: Cyfathrebu Rhyngbroffesiynol**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r myfyriwr** | | | | | |
| **Enw'r asesydd** | | | | | |
| | | **Methu** | **Ffiniol** | **Llwyddo** | **Rhagorol** |
| P1 | **Sgiliau cyfathrebu – proses**<br>Casglu gwybodaeth: A wnaeth y myfyriwr ddangos dull rhwydd a medrus o gasglu hanes manwl gan y claf?<br>Cyfathrebu â chydweithiwr: A wnaeth y myfyriwr ddangos dull rhwydd a medrus? A wnaeth y myfyriwr gyfathrebu'n effeithiol â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, cleifion, perthnasau, gofalwyr ac eiriolwyr eraill?<br>A wnaeth y myfyriwr ddangos y gallu i weithio'n effeithiol, yn barchus ac yn gefnogol fel aelod o'r tîm? | | | | |
| P2 | **Sgiliau cyfathrebu – cynnwys**<br>Casglu gwybodaeth: A wnaeth y myfyriwr gasglu hanes cywir a chynhwysfawr gan y claf?<br>Trosglwyddo: A wnaeth y myfyriwr nodi cynnwys priodol, gan gynnwys cyflwyniad priodol, manylion y claf, crynodeb o ganfyddiadau clinigol, synthesis sefyllfa ac argymhelliad? | | | | |
| P3 | **Diagnosteg a rhesymu clinigol**<br>A ddangosodd y myfyriwr ddehongliad rhesymegol o ganfyddiadau'r archwiliad clinigol a rhagarweiniol? A wnaeth y myfyriwr lunio rhestr briodol wedi'i blaenoriaethu o broblemau a diagnosis gwahaniaethol, gan ddangos cyfiawnhad rhesymegol/blaenoriaethu a graddio, a gallu i resymu ei ddiagnosis? | | | | |
| P4 | **Gofal clinigol a diogelwch cleifion**<br>A wnaeth y myfyriwr ateb y cwestiynau am ofal clinigol a diogelwch cleifion yn briodol? A wnaeth y myfyriwr ymdrin yn briodol â chymhlethdod ac ansicrwydd, gan gynnwys rheoli cydafiechedd a blaenoriaethu tasgau? A wnaeth y myfyriwr ddangos dealltwriaeth o ymchwiliadau perthnasol a sut gallai'r canlyniadau bennu gofal pellach? A wnaeth y myfyriwr ddehongli'r canlyniadau a sicrhau y gweithredir arnynt yn briodol yng nghyd-destun y sefyllfa glinigol, gan osgoi gorymchwilio? A wnaeth y myfyriwr asesu a chynhyrchu cynlluniau rheoli diogel a phriodol ar gyfer cyflyrau cronig/achosion brys/acíwt, a hybu iechyd ac atal afiechyd fel y bo'n briodol? A wnaeth y myfyriwr ddangos y gallu i ystyried risgiau a manteision dewisiadau rheoli amgen ar yr un pryd â defnyddio canllawiau wedi'u seilio ar dystiolaeth yn briodol a dangos sgiliau ymgynghori a rheoli sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn? | | | | |
| P5 | **Proffesiynoldeb**<br>A wnaeth y myfyriwr ddangos parch tuag at y claf, cyfathrebu'n glir, ac ystyried diogelwch, cysur ac urddas y claf? A wnaeth y myfyriwr ddangos ei fod yn sicrhau hylendid dwylo diogel a'i fod yn briodol o ran ei bryd a'i wedd a'i ymddygiad? A wnaeth y myfyriwr ymddwyn yn unol â chyfrifoldebau cyfreithiol a moesegol (gan gynnwys egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth), gan ddangos dealltwriaeth o alluedd a chydsyniad y claf a chyfrinachedd yn ei gylch wrth ddarparu gofal, a diogelu cleifion agored i niwed, lle y bo'n berthnasol? | | | | |

| Rhybudd diogelwch (‘cerdyn melyn’)<br>(Os OES, llenwch y blwch ‘rhybudd diogelwch’ ar y cefn) | Oes | Nac oes |
|---|---|---|

# Ffarmacoleg glinigol, therapiwteg a chyfathrebu

A chithau’n feddyg newydd gymhwyso, bydd yn ofynnol i chi ragnodi meddyginiaethau a hylifau, cynnal adolygiadau meddyginiaeth a chyfathrebu ynglŷn ag effeithiau meddyginiaethau a’u monitro, yn ddiogel ac yn effeithiol.

Yn yr orsaf hon, mae’n ofynnol i chi gyfathrebu â chlaf, perthynas neu ofalwr, gan ganolbwyntio ar ffarmacoleg glinigol a therapiwteg.

Bydd gennych **7** munud i siarad â’r claf neu ei berthynas/ofalwr ynglŷn â thasg benodol sy’n ymwneud â therapiwteg, er enghraifft, cynnal adolygiad o’i feddyginiaeth, gan esbonio ac ateb cwestiynau’r claf ynglŷn â meddyginiaeth newydd neu gasglu hanes am adwaith niweidiol posibl.

Yna, gofynnir i chi grynhoi’r achos ac ateb cwestiynau safonol gan yr arholwr sy'n ymwneud ag adnoddau clinigol safonol, a’ch rhesymu clinigol (nes bydd y gloch rybudd yn canu ar ôl 11 munud). Byddwch wedyn yn ateb cwestiynau sy'n ymwneud â gofal clinigol a rheoli cleifion.

Byddwch yn cael eich asesu o ran eich sgiliau cyfathrebu clinigol (proses a chynnwys), yn ogystal â’ch rhesymu clinigol a gofal clinigol wrth siarad â'r claf neu ei berthynas/ofalwr, a’ch rhesymu clinigol, gofal clinigol a phroffesiynoldeb. Bydd y prif reswm pam mae’r claf yn ceisio sylw meddygol yn cael ei ddisgrifio ar ddrws yr ystafell er mwyn i chi ei ddarllen cyn i chi fynd i mewn i'r ystafell.

## GORSAF ENGHREIFFTIOL: FFARMACOLEG GLINIGOL, THERAPIWTEG A CHYFATHREBU

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth i Fyfyrwyr** | Rydych yn fyfyriwr meddygol yn eich pedwaredd flwyddyn ar leoliad clinigol mewn Ysbyty Cyffredinol Dosbarth. |
| Lleoliad: | Ward feddygol gyffredinol |
| Manylion y claf: | Derbyniwyd y claf 75 oed hwn ddoe gyda deliriwm, yn eilaidd i benzodiazepinau a ragnodwyd. |
| Eich tasg: | Siaradwch â’r claf am ei feddyginiaeth<br><br>Ar ôl 7 munud bydd yr arholwr yn gofyn i chi grynhoi’ch canfyddiadau.<br><br>Bydd gofyn i chi wedyn ddehongli data clinigol ac ateb cwestiynau am eich rhesymu clinigol a gofal clinigol ar gyfer y claf. |

## ISCE atodol Blwyddyn 4/Blwyddyn 5 Prifysgol Caerdydd 2022/23

**Taflen farcio cydfyfyrwyr ffurfiannol enghreifftiol: Ffarmacoleg glinigol, therapiwteg a chyfathrebu**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r myfyriwr** | | | | | |
| **Enw'r asesydd** | | | | | |
| | | **Methu** | **Ffiniol** | **Llwyddo** | **Rhagorol** |
| P1 | **Sgiliau cyfathrebu – proses**<br>A wnaeth y myfyriwr ddangos cyfathrebu effeithiol â'r claf? | | | | |
| P2 | **Sgiliau cyfathrebu – cynnwys**<br>A wnaeth y myfyriwr gasglu gwybodaeth gywir a chynhwysfawr gan y claf/ darparu gwybodaeth gywir a chynhwysfawr i'r claf?<br>Rhagnodi, adolygu, cyfathrebu a monitro effeithiau meddyginiaethau'n ddiogel ac yn effeithiol? Defnyddio a chofnodi gwybodaeth yn ddiogel ac yn effeithiol? | | | | |
| P3 | **Diagnosteg a rhesymu clinigol**<br>A ddangosodd y myfyriwr ddehongliad rhesymegol o ganfyddiadau'r archwiliad clinigol a rhagarweiniol? A wnaeth y myfyriwr lunio rhestr briodol wedi'i blaenoriaethu o broblemau a diagnosis gwahaniaethol, gan ddangos cyfiawnhad rhesymegol/blaenoriaethu a graddio, a gallu i resymu ei ddiagnosis? | | | | |
| P4 | **Gofal clinigol a diogelwch cleifion**<br>A wnaeth y myfyriwr ateb y cwestiynau am ofal clinigol a diogelwch cleifion yn briodol? A wnaeth y myfyriwr ymdrin yn briodol â chymhlethdod ac ansicrwydd, gan gynnwys rheoli cydafiechedd a blaenoriaethu tasgau? A wnaeth y myfyriwr ddangos dealltwriaeth o ymchwiliadau perthnasol a sut gallai'r canlyniadau bennu gofal pellach? A wnaeth y myfyriwr ddehongli'r canlyniadau a sicrhau y gweithredir arnynt yn briodol yng nghyd-destun y sefyllfa glinigol, gan osgoi gorymchwilio?<br>A wnaeth y myfyriwr asesu a chynhyrchu cynlluniau rheoli diogel a phriodol ar gyfer cyflyrau cronig/achosion brys/acíwt, a hybu iechyd ac atal afiechyd fel y bo'n briodol?<br>A wnaeth y myfyriwr ddangos y gallu i ystyried risgiau a manteision dewisiadau rheoli amgen ar yr un pryd â defnyddio canllawiau wedi'u seilio ar dystiolaeth yn briodol a dangos sgiliau ymgynghori a rheoli sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn? | | | | |
| P5 | **Proffesiynoldeb**<br>A wnaeth y myfyriwr ddangos parch tuag at y claf, cyfathrebu'n glir, ac ystyried diogelwch, cysur ac urddas y claf?<br>A wnaeth y myfyriwr ddangos ei fod yn sicrhau hylendid dwylo diogel a'i fod yn briodol o ran ei bryd a'i wedd a'i ymddygiad?<br>A wnaeth y myfyriwr ymddwyn yn unol â chyfrifoldebau cyfreithiol a moesegol (gan gynnwys egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth), gan ddangos dealltwriaeth o alluedd a chydsyniad y claf a chyfrinachedd yn ei gylch wrth ddarparu gofal, a diogelu cleifion agored i niwed, lle y bo'n berthnasol? | | | | |
| **Rhybudd diogelwch ('cerdyn melyn')**<br>**(Os OES, llenwch y blwch 'rhybudd diogelwch' ar y cefn)** | | | | **Oes** | **Nac oes** |

# Trafodaeth ar sail achosion

Yn yr orsaf 'Trafodaeth ar Sail Achosion' (TSA) bydd gofyn i chi gyflwyno achos ar gyfer yr ISCEs ffurfiannol a chrynodol. Dylai pob achos a gyflwynir fod am unrhyw beth rydych chi wedi dod ar ei draws mewn lleoliad clinigol ac wedi bod yn gysylltiedig â'i ofal.

Mae angen llwytho'r holl gyflwyniadau i Turnitin 2 wythnos cyn yr ISCE a byddwch yn cael gwybod cyn y dyddiad cau a dolen i'w gyflwyno.

Mae angen i'ch cyflwyniad ddilyn y meini prawf canlynol:

- Uchafswm o un ochr o A4 gan ddefnyddio maint ffont Calibri 12
- Strwythur clir gyda penawdau i'r hanes
- Gellir defnyddio byrfoddau a dderbynnir yn eang e.e., TIA
- Cynnwys eich enw a rhif myfyriwr yn y gornel dde uchaf
- Dim ond dogfennau PDF fydd yn cael eu derbyn
- Achos newydd ar gyfer pob sesiwn ISCE (ffurfiannol, crynhoi, ailsefyll)
- Mae angen gwneud manylion personol y claf yn ddienw fel nad ydych yn gallu adnabod y claf ar sail y cyflwyniad
- Rhaid i'r achos fod yn un nad ydych wedi'i ddefnyddio na'i gyflwyno o'r blaen o unrhyw asesiadau blaenorol (h.y., Llwybr Cleifion/Oncoleg/ISCE Ffurfiannol/Crynodol ac ati).
- Gall fod yn achos eich bod wedi dod ar ei draws yn eich lleoliad clinigol a'ch bod wedi'i drafod â'ch tiwtor, ond ni all fod yn unrhyw beth sydd wedi'i gyflwyno fel rhan o asesiad.

Yn yr ISCE byddwch yn cael copi papur gan yr arholwr o'ch achos a gyflwynwyd i helpu fel cymorth cofio.

Yn yr orsaf TSA ISCE, byddwch yn cael eich asesu ar eich gallu i gyflwyno'r achos yn gryno. Byddwch hefyd yn cael eich asesu ar eich gallu i ystyried risgiau a manteision dewisiadau rheoli amgen ar yr un pryd â defnyddio canllawiau wedi'u seilio ar dystiolaeth yn briodol a dangos sgiliau ymgynghori a rheoli sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn olaf, byddwch yn cael eich asesu ar eich gallu i ddangos egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth priodol - er enghraifft, deall galluedd a chydsyniad y claf a chyfrinachedd yn ei gylch wrth ddarparu gofal, diogelu cleifion agored i niwed.

Yn gyntaf, gofynnir i chi gyflwyno claf yr ydych wedi cwrdd ag ef **y buoch yn ymwneud â'i ofal**. Gofynnir i chi drafod ei achos â'r arholwr, cyn ateb cwestiynau am ddiagnosis a rheolaeth y claf a'ch asesiad cyfannol o'i achos. Yn olaf, gofynnir cwestiynau i chi am agweddau moesegol a gwyddor gymdeithasol sy'n ymwneud â'i achos.

Wrth ddewis achos addas ar gyfer yr orsaf TSA ISCE, ystyriwch y meini prawf marcio uchod a gwnewch yn siŵr fod cyfrinachedd y claf yn cael ei gynnal bob amser.

Gallai enghreifftiau o achosion addas i'w cyflwyno gynnwys claf sy'n cael ei dderbyn â sawl cydafiachedd, y gallai materion ffordd o fyw gyfrannu atynt. Neu glaf agored i niwed yr oedd pryderon diogelu yn gysylltiedig ag ef neu faterion yn ymwneud â'i alluedd neu ei allu i gydsynio i driniaeth neu weithdrefn ac ati.

## GORSAF ENGHREIFFTIOL: TRAFODAETH AR SAIL ACHOSION

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth i Fyfyrwyr** | Mae'n ofynnol i chi gyflwyno claf yr ydych wedi cwrdd ag ef ar leoliad clinigol.<br><br>Ar ôl 7 munud, bydd yr arholwr yn gofyn cwestiynau i chi ynglŷn â'r ffordd yr ydych wedi cymathu'r achos, eich rhesymu clinigol, eich cynllunio rheoli a'ch asesiad cyfannol o'r achos.<br><br>Yn olaf, bydd yr arholwr yn gofyn cwestiynau i chi ynglŷn ag agweddau moesegol a chymdeithasol sy'n ymwneud ag achos y claf. |

## ISCE Blwyddyn 4 Prifysgol Caerdydd 2022/23

## Taflen farcio cydfyfyrwyr ffurfiannol enghreifftiol: Trafodaeth ar sail achosion

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r myfyriwr** | | | | | |
| **Enw'r asesydd** | | | | | |
| | | **Methu** | **Ffiniol** | **Llwyddo** | **Rhagorol** |
| P1 | **Sgiliau cyfathrebu – proses**<br>A wnaeth y myfyriwr ddangos dull rhwydd, medrus a chyfannol o gyflwyno'r claf mewn modd proffesiynol? | | | | |
| P2 | **Sgiliau cyfathrebu – cynnwys**<br>A wnaeth y myfyriwr ddarparu gwybodaeth gywir a chynhwysfawr ynglŷn ag achos y claf, gan gynnwys yr holl elfennau allweddol, a chanfyddiadau cadarnhaol a negyddol o bwys? A aeth y myfyriwr i'r afael ag agweddau moesegol a gwyddor gymdeithasol a oedd yn ymwneud ag achos y claf a dangos dealltwriaeth briodol o effaith y ffactorau hyn ar y claf? | | | | |
| P3 | **Diagnosteg a rhesymu clinigol**<br>A ddangosodd y myfyriwr ddehongliad rhesymegol o ganfyddiadau'r archwiliad clinigol a rhagarweiniol? A wnaeth y myfyriwr lunio rhestr briodol wedi'i blaenoriaethu o broblemau a diagnosis gwahaniaethol, gan ddangos cyfiawnhad rhesymegol/blaenoriaethu a graddio, a gallu i resymu ei ddiagnosis? | | | | |
| P4 | **Gofal clinigol a diogelwch cleifion**<br>A wnaeth y myfyriwr ateb y cwestiynau am ofal clinigol a diogelwch cleifion yn briodol? A wnaeth y myfyriwr ymdrin yn briodol â chymhlethdod ac ansicrwydd, gan gynnwys rheoli cydafiechedd a blaenoriaethu tasgau? A wnaeth y myfyriwr ddangos dealltwriaeth o ymchwiliadau perthnasol a sut gallai'r canlyniadau bennu gofal pellach? A wnaeth y myfyriwr ddehongli'r canlyniadau a sicrhau y gweithredir arnynt yn briodol yng nghyd-destun y sefyllfa glinigol, gan osgoi gorymchwilio?<br>A wnaeth y myfyriwr asesu a chynhyrchu cynlluniau rheoli diogel a phriodol ar gyfer cyflyrau cronig/achosion brys/acíwt, a hybu iechyd ac atal afiechyd fel y bo'n briodol?<br>A wnaeth y myfyriwr ddangos y gallu i ystyried risgiau a manteision dewisiadau rheoli amgen ar yr un pryd â defnyddio canllawiau wedi'u seilio ar dystiolaeth yn briodol a dangos sgiliau ymgynghori a rheoli sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn? | | | | |
| P5 | **Proffesiynoldeb**<br>A wnaeth y myfyriwr ddangos parch tuag at y claf, cyfathrebu'n glir, ac ystyried diogelwch, cysur ac urddas y claf?<br>A wnaeth y myfyriwr ddangos ei fod yn sicrhau hylendid dwylo diogel a'i fod yn briodol o ran ei bryd a'i wedd a'i ymddygiad?<br>A wnaeth y myfyriwr ymddwyn yn unol â chyfrifoldebau cyfreithiol a moesegol (gan gynnwys egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth), gan ddangos dealltwriaeth o alluedd a chydsyniad y claf a chyfrinachedd yn ei gylch wrth ddarparu gofal, a diogelu cleifion agored i niwed, lle y bo'n berthnasol? | | | | |
| **Rhybudd diogelwch ('cerdyn melyn')<br>(Os OES, llenwch y blwch 'rhybudd diogelwch' ar y cefn)** | | | | **Oes** | **Nac oes** |

# Gorsafoedd asesu acíwt

Mae’r gorsafoedd acíwt hyn yn profi sut byddwch yn asesu a rheoli derbyniadau acíwt o ddydd i ddydd i unrhyw arbenigedd clinigol yr ydych wedi dod ar ei draws yn ystod Cyfnod 1 neu 2 y cwrs, er enghraifft meddygaeth acíwt, iechyd plant. Caiff y prif symptom sydd gan y claf ei ddisgrifio ar ddrws yr ystafell er mwyn i chi gael ei ddarllen cyn i chi fynd i mewn i'r ystafell. Dylech asesu'r claf ar sail y brys clinigol.

Bydd arholwr yn yr ystafell gyda chlaf efelychol a bydd yr arholwr yn eich arwain trwy'r orsaf. Cofiwch y dylid anwybyddu'r gloch 7 munud yn y gorsafoedd acíwt a bydd yr arholwr yn eich arwain ynglŷn ag is-amseriadau er mwyn eich symud trwy wahanol elfennau'r orsaf o fewn y 15 munud a ganiateir.

Bydd gofyn i chi wneud y canlynol:

- Casglwch hanes byr (cyfathrebu clinigol – cynnwys a phroses)
- Ymateb i gwestiynau penodol – gallai’r rhain gynnwys cwestiynau sy’n ymwneud â’ch diagnosis gwahaniaethol a chynlluniau rheoli ar unwaith, a dehongli data clinigol sy’n ymwneud â’r claf (Diagnosteg a rhesymu clinigol a gofal clinigol a diogelwch cleifion)
- Ymgymryd â thasg ymarferol – sgìl gweithdrefnol neu ysgrifenedig (perfformiad technegol)

Mae pob gorsaf acíwt yn wahanol a gall amrywio o ran ei strwythur. Oherwydd hyn, gallai fod amrywiadau i’r arweiniad hwn gan dibynnu ar yr orsaf, ond mae’r amseriadau a’r strwythur cyffredinol fel arfer fel a ganlyn:

Ar ddechrau’r orsaf: bydd yr arholwr yn eich cyfarwyddo i gasglu hanes byr a phenodol gan y claf.

Ar ôl **4** munud:

- bydd yr arholwr yn rhoi crynodeb byr o ganfyddiadau clinigol, sydd fel arfer yn cynnwys siart NEWS y claf
- yna, gofynnir i chi roi eich diagnosis gwahaniaethol
- nesaf, gofynnir i chi sut byddech yn ymchwilio i’r claf
- wedyn, cyflwynir rhai canlyniadau clinigol i chi sy’n ymwneud â’r claf a gofynnir i chi ddehongli’r rhain/nodi annormaleddau allweddol ac ati (profion gwaed/pelydr x ac ati)
- yn dilyn hynny, gofynnir i chi beth yw’r diagnosis mwyaf tebygol a pham

Erbyn 7 munud: gofynnir i chi am eich rheolaeth gychwynnol a pharhaus o’r claf

Erbyn 11 munud: gofynnir i chi gyflawni sgìl gweithdrefnol clinigol cysylltiedig.

15 munud: diwedd yr orsaf

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth i Fyfyrwyr** | Rydych yn fyfyriwr meddygol yn eich pedwaredd flwyddyn ar leoliad clinigol mewn Ysbyty Cyffredinol Dosbarth. |
| Lleoliad: | Uned Derbyniadau Meddygol Brys |
| Manylion y claf: | Derbyniwyd y claf hwn gyda braich chwith sydd wedi chwyddo ac sydd yn boenus. Nid yw wedi bod yn destun unrhyw ymchwiliadau eto. |
| Eich tasg: | Casglwch hanes gan y claf.<br><br>Bydd yr arweinydd yn gofyn cwestiynau i chi wedyn a gofynnir i chi berfformio sgìl gweithdrefnol clinigol. |

## ISCE Blwyddyn 4 Prifysgol Caerdydd 2022/23

## Taflen farcio cydfyfyrwyr ffurfiannol enghreifftiol: Asesiad acíwt

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r myfyriwr** | | | | | |
| **Enw'r asesydd** | | | | | |
| | | **Methu** | **Ffiniol** | **Llwyddo** | **Rhagorol** |
| P1 | **Sgiliau cyfathrebu – cynnwys a phroses**<br>A wnaeth y myfyriwr ddangos dull rhwydd a medrus o gasglu hanes gan y claf? A wnaeth y myfyriwr gofnodi gwybodaeth berthnasol am y claf trwy gynnal archwiliad hanes +/- archwiliad corfforol/iechyd meddwl priodol?<br>A wnaeth y myfyriwr ddangos dull rhwydd a medrus o geisio cyfathrebu â'r claf? Strwythuredig, e.e. Gofyn, Darparu, Gofyn. | | | | |
| P2 | **Perfformiad technegol**<br>A wnaeth y myfyriwr esbonio a pherfformio'r weithdrefn yn briodol ac yn ddiogel? | | | | |
| P3 | **Diagnosteg a rhesymu clinigol**<br>A ddangosodd y myfyriwr ddehongliad rhesymegol o ganfyddiadau'r archwiliad clinigol a rhagarweiniol? A wnaeth y myfyriwr lunio rhestr briodol wedi'i blaenoriaethu o broblemau a diagnosis gwahaniaethol, gan ddangos cyfiawnhad rhesymegol/blaenoriaethu a graddio, a gallu i resymu ei ddiagnosis? | | | | |
| P4 | **Gofal clinigol a diogelwch cleifion**<br>A wnaeth y myfyriwr ateb y cwestiynau am ofal clinigol a diogelwch cleifion yn briodol? A wnaeth y myfyriwr ymdrin yn briodol â chymhlethdod ac ansicrwydd, gan gynnwys rheoli cydafiechedd a blaenoriaethu tasgau? A wnaeth y myfyriwr ddangos dealltwriaeth o ymchwiliadau perthnasol a sut gallai'r canlyniadau bennu gofal pellach? A wnaeth y myfyriwr ddehongli'r canlyniadau a sicrhau y gweithredir arnynt yn briodol yng nghyd-destun y sefyllfa glinigol, gan osgoi gorymchwilio?<br>A wnaeth y myfyriwr asesu a chynhyrchu cynlluniau rheoli diogel a phriodol ar gyfer cyflyrau cronig/achosion brys/acíwt, a hybu iechyd ac atal afiechyd fel y bo'n briodol?<br>A wnaeth y myfyriwr ddangos y gallu i ystyried risgiau a manteision dewisiadau rheoli amgen ar yr un pryd â defnyddio canllawiau wedi'u seilio ar dystiolaeth yn briodol a dangos sgiliau ymgynghori a rheoli sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn? | | | | |
| P5 | **Proffesiynoldeb**<br>A wnaeth y myfyriwr ddangos parch tuag at y claf, cyfathrebu'n glir, ac ystyried diogelwch, cysur ac urddas y claf?<br>A wnaeth y myfyriwr ddangos ei fod yn sicrhau hylendid dwylo diogel a'i fod yn briodol o ran ei bryd a'i wedd a'i ymddygiad?<br>A wnaeth y myfyriwr ymddwyn yn unol â chyfrifoldebau cyfreithiol a moesegol (gan gynnwys egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth), gan ddangos dealltwriaeth o alluedd a chydsyniad y claf a chyfrinachedd yn ei gylch wrth ddarparu gofal, a diogelu cleifion agored i niwed, lle y bo'n berthnasol? | | | | |
| **Rhybudd diogelwch ('cerdyn melyn')**<br>**(Os OES, llenwch y blwch 'rhybudd diogelwch' ar y cefn)** | | | | **Oes** | **Nac oes** |

# Gorsafoedd archwiliad clinigol

Mae'r gorsafoedd hyn fel arfer yn cynnwys cleifion 'go iawn'. Ar y cyfnod hwn, mae'r pwyslais ar ddod o hyd i arwyddion corfforol, gwneud diagnosis a llunio cynllun rheoli priodol, ac nid cwblhau'r arholiad mewn **7** munud yn unig. Felly, ar ôl archwilio'r claf, gofynnir i chi wneud y canlynol:

- Crynhoi eich canfyddiadau clinigol
- Trafod ac ateb cwestiynau sy'n ymwneud ag adnoddau clinigol safonol (e.e. canlyniadau gwaed ac ati)
- Datblygu diagnosis gwahaniaethol priodol
- Nodi a chyfiawnhau'r sail resymegol ar gyfer eich diagnosis mwyaf tebygol
- Ateb cwestiynau safonol sy'n ymwneud â gofal clinigol a rheoli cleifion

Mae'n rhaid i chi ddilyn canllawiau PPE priodol ynglŷn â glanhau dwylo cyn ac ar ôl archwilio pob claf. Nid oes rhaid i chi esbonio pob cam o'ch archwiliad; ond efallai y bydd arholwyr yn gofyn am eglurhad ynghylch yr hyn yr ydych yn edrych amdano er mwyn dyfarnu marciau yn briodol, e.e. colli cyhyrau neu ffasgelliadau.

Rhoddir gwybodaeth y tu allan i bob gorsaf sy'n dweud wrthych chi pa system neu ran o system y dylech ei harchwilio. Mae pob gorsaf archwiliad clinigol yn para 15 munud. Bydd gennych saith munud i asesu ac archwilio'r claf. Yna bydd gofyn i chi grynhoi eich canfyddiadau ac ateb cwestiynau safonol gan yr arholwr sy'n ymwneud ag adnoddau clinigol safonol, yn ogystal â'ch rhesymu clinigol a'ch diagnosis gwahaniaethol (nes bydd y gloch rybudd yn canu ar ôl 11 munud). Byddwch wedyn yn ateb cwestiynau sy'n ymwneud â gofal clinigol a rheoli cleifion.

## GORSAF ENGHREIFFTIOL: YR ORSAF GASTROBERFEDDOL

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth i Fyfyrwyr** | Rydych yn fyfyriwr meddygol ym Mlwyddyn 4 ar leoliad clinigol mewn meddygfa |
| Lleoliad: | Clinig llawfeddygol i gleifion allanol |
| Manylion y claf: | Mae'r claf hwn yn cwyno am boen yn yr abdomen |
| Eich tasg: | Archwiliwch system gastroberfeddol y claf.<br>Ar ôl saith munud, bydd yr arholwr yn gofyn i chi grynhoi eich canfyddiadau a darparu diagnosis gwahaniaethol.<br>Wedyn bydd gofyn i chi ddehongli data clinigol ac ateb cwestiynau am eich rhesymu clinigol a gofal clinigol ar gyfer y claf. |

ISCE atodol Blwyddyn 4/Blwyddyn 5 Prifysgol Caerdydd 2022/23

## Taflen farcio cydfyfyrwyr ffurfiannol enghreifftiol: Archwiliad clinigol

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r myfyriwr** | | | | | |
| **Enw'r asesydd** | | | | | |
| | | **Methu** | **Ffiniol** | **Llwyddo** | **Rhagorol** |
| P1 | **Archwiliad clinigol – proses**<br>A gyflwynodd y myfyriwr ei hun a chael cydsyniad ar lafar? A gwblhaodd y myfyriwr archwiliad corfforol rhwydd a thrylwyr o'r claf? | | | | |
| P2 | **Archwiliad clinigol – cynnwys**<br>A wnaeth y myfyriwr nodi'r holl arwyddion cywir? | | | | |
| P3 | **Diagnosteg a rhesymu clinigol**<br>A ddangosodd y myfyriwr ddehongliad rhesymegol o ganfyddiadau'r archwiliad clinigol a rhagarweiniol? A wnaeth y myfyriwr lunio rhestr briodol wedi'i blaenoriaethu o broblemau a diagnosis gwahaniaethol, gan ddangos cyfiawnhad rhesymegol/blaenoriaethu a graddio, a gallu i resymu ei ddiagnosis? | | | | |
| P4 | **Gofal clinigol a diogelwch cleifion**<br>A wnaeth y myfyriwr ateb y cwestiynau am ofal clinigol a diogelwch cleifion yn briodol? A wnaeth y myfyriwr ymdrin yn briodol â chymhlethdod ac ansicrwydd, gan gynnwys rheoli cydafiechedd a blaenoriaethu tasgau? A wnaeth y myfyriwr ddangos dealltwriaeth o ymchwiliadau perthnasol a sut gallai'r canlyniadau bennu gofal pellach? A wnaeth y myfyriwr ddehongli'r canlyniadau a sicrhau y gweithredir arnynt yn briodol yng nghyd-destun y sefyllfa glinigol, gan osgoi gorymchwilio?<br>A wnaeth y myfyriwr asesu a chynhyrchu cynlluniau rheoli diogel a phriodol ar gyfer cyflyrau cronig/achosion brys/acíwt, a hybu iechyd ac atal afiechyd fel y bo'n briodol?<br>A wnaeth y myfyriwr ddangos y gallu i ystyried risgiau a manteision dewisiadau rheoli amgen ar yr un pryd â defnyddio canllawiau wedi'u seilio ar dystiolaeth yn briodol a dangos sgiliau ymgynghori a rheoli sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn? | | | | |
| P5 | **Proffesiynoldeb**<br>A wnaeth y myfyriwr ddangos parch tuag at y claf, cyfathrebu'n glir, ac ystyried diogelwch, cysur ac urddas y claf?<br>A wnaeth y myfyriwr ddangos ei fod yn sicrhau hylendid dwylo diogel a'i fod yn briodol o ran ei bryd a'i wedd a'i ymddygiad?<br>A wnaeth y myfyriwr ymddwyn yn unol â chyfrifoldebau cyfreithiol a moesegol (gan gynnwys egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth), gan ddangos dealltwriaeth o alluedd a chydsyniad y claf a chyfrinachedd yn ei gylch wrth ddarparu gofal, a diogelu cleifion agored i niwed, lle y bo'n berthnasol? | | | | |
| **Rhybudd diogelwch ('cerdyn melyn')**<br>**(Os OES, llenwch y blwch 'rhybudd diogelwch' ar y cefn)** | | | | **Oes** | **Nac oes** |

# Adnoddau e-ddysgu a dysgu hunangyfeiriedig

I'ch helpu i adolygu eich gweithdrefnau clinigol, mae tiwtorialau ar gael ar-lein ar Dysgu Canolog.

## Ardal dysgu hunangyfeiriedig: Caerdydd

Gallwch ymarfer yn yr ardal Dysgu Hunangyfeiriedig, 3ydd Llawr, Adeilad Cochrane.
Mae system archebu ar-lein yn caniatáu i chi archebu slot 50 munud ymlaen llaw yn yr Ardal. I gael mynediad
i'r system archebu, ewch i: https://resourcebooker.cardiff.ac.uk a dod o hyd i'r teilsen 'Medic Self-Directed Learning Space'. Mae fideo hyfforddi hefyd i'w weld ar Dysgu Canolog (Meddygol – Modiwl Sgiliau Clinigol / Ardal Dysgu Hunangyfeiriedig).

**Oriau Agor**
Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener: 09.00-16.00
Dydd Mercher: 09.00-15.00 (Tiwtor Mewnol)
Yn ystod cyfnodau arholiadau, gall yr amserau hyn a'r argaeledd newid.
Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu cyhoeddi ar Dysgu Canolog.

Mae'r Ardal Ddysgu Hunangyfeiriedig yn cynnal tiwtor 'Mewnol' er mwyn i fyfyrwyr ofyn cwestiynau
am sgiliau maen nhw'n ansicr amdanyn nhw. Ar ddydd Mercher, ni fydd y tiwtor yno i ddangos y sgil yn llawn, ond dim ond i helpu i ateb pwyntiau anodd neu i roi cymorth.

## Ardal dysgu hunangyfeiriedig: Bangor

Gallwch ymarfer o fewn ardal sgiliau ym Mloc Deiniol sydd wedi ei leoli y tu ôl i Brigantia.

Bydd sesiwn tiwtor "mewnol" yn ogystal â mynediad at y dysgu hunangyfeiriedig.

Bydd rhagor o fanylion am drefniadau o'r fath ac argaeledd ar Dysgu Canolog.

# Ffynonellau gwybodaeth pellach ynghylch asesiadau clinigol

Gweler y Canllaw Asesu a Chynnydd Cyfunol ar Dysgu Canolog.